YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MAI, 1868.

Y BALLOT.

DYWEDASOM, yn Rhifyn Mawrth, na fydd yr Ysgrif Ddiwygiadol (*Reform Bill*) a basiwyd y flwyddyn ddiweddaf o nemawr gwerth i'r wlad, hyd nes ceir amddiffyniad y Ballot, ac y gwyddai y Toryaid hyn yn eithaf da pan oedd yr Ysgrif o flaen y Senedd. Os yw yr Ysgrif wedi gwneyd mwy o bleidleiswyr (*voters*) yn ein trefydd a ddichon fod o ochr Rhyddfrydiaeth, y mae hefyd wedi gwneyd mwy o bleidleiswyr yn y Sîroedd, a fyddent yn ddiau, y rhan amlaf o honynt, o ochr rhyddid, ond yn gymmaint a'u bod tan grafangau y meistri tiroedd, rhaid fydd iddynt attegu Toryaeth. Nid oes dim ammheuaeth genym nad yw'r Ysgrif wedi cryfhau Toryaeth, yn enwedig yng Nghymru, ac os y cymmerwn dan ein hystyriaeth y ffaith bwysfawr mai Toryaid yw y rhan amlaf o berchenogion tiroedd, tueddir ni yn gryf i gredu y bydd y fontais a ddeillia o Ysgrif Ddiwygiadol 1867 ar y cyfan i'r Toryaid. Pan ydoedd yr Ysgrif yn pasio trwy y ddau Dy, rhyfeddai llawer am y Toryaid eu bod mor gibdall a digalon a chymmeryd eu harwain gan Lord Derby a D'Israeli i ganiatai i Ysgrif mor werinaidd basio yn gyfraith. Ond nid felly, eithr gwyddent o'r goreu beth oeddynt oddeutu. Yr oedd eu llygaid yn agored lled pen —yn llawer mwy agored na llygaid y sawl oeddynt y pryd hwnw yn rhyfeddu am danynt. Nid oes neb a wyr yn well na'r Toryaid nad yw yr Ysgrif hon ddim ond *sham* heb y Ballot. Dwst ydyw i ddallu llygaid y wlad, a phan y daw i ganfod hyn, ac i ymofyn y Ballot, yna ceir gweled p'un a ydyw llygaid y Toryaid yn agored a'i peidio. Pan ddelo y wlad hon i ymofyn amddiffyniad y Ballot o ddifrif, brwydr ddychrynllyd fydd hono, ond brwydr fydd yn rhaid ei hymladd cyn bo hir.

"Beth yw y Ballot?" medd rhyw un na sydd yn deall. Meddyliwch fod dau neu dri, neu ragor, yn ymgeisio am ryw swydd neillduol—swydd a achosa ymrafael yn yr etholiad, ac effallai a gyffroa nwydau drwg rhwng dynion a'u gilydd. Peth dymunol fyddai, am hyny, gan bob etholwr ymddibynol roddi ei bleidlais yn ddirgel er mwyn diogelwch rhag perchen ei fferm, neu ryw un arall a allai ei niweidio yn ol llaw. Yn awr y Ballot yw hyn. Rhoddir i bob etholwr ddau neu dri papyryn, yn ol nifer yr

ymgeiswyr am y swydd, ag enwau yr ymgeiswyr arnynt, pob un ar ei bapyryn. Ar ddydd yr etholiad, mewn ystafell ddirgel, doda yr etholwr bapyryn yr ymgeisiwr a gymmeradwya mewn blwch wedi ei ddarparu i'r pwrpas. Ar ddiwedd yr etholiad agorir y blwch yn gyhoeddus, i weled pa un o'r ymgeiswyr sydd a mwyaf o bapyrynau ynddo. Hwnw ydyw'r ymgeisiwr llwyddianus. Rhyw beth cyffelyb i hyna yw y Ballot. Dull dirgel o bleidleisio ydyw.

Amlwg yw i bawb y byddai y fath ddull o bleidleisio mewn Etholiad Seneddol, yn galluogi etholwyr ymddibynol i wneuthur cyfiawnder a'u cydwybodau heb achos ofni digio neb a allai yn ol llaw eu niweidio. Amlwg yw hefyd pe celai etholwyr amddiffyniad y Ballot, y danfonid dynion mwy addas i'r Senedd, na sydd yn cael eu danfon yno yn gyffredin yn ol y drefn bresennol. Rhodder diogelwch y Ballot unwaith i etholwyr, mentrwn ddyweyd na fyddai y ffaith fod Syr Thomas, neu ryw Syr arall, yn un o fonedd y Sîr, yn berchen erwyon llydain a choden drom, yn fontais neillduol iddo mewn Etholiad Seneddol. Y fontais sydd ganddo, yn ol y dull cyhoeddus presenol o roddi pleidlais, yw y peth a elwir y "*screw*." Ar y cyfan, y dyn cymmwysa i'r swydd fyddai yn fwyaf tebygol o gael ei ddanfon i'r Senedd gan y Ballot. Er fod ffermwyr Cymru yn cael eu danfon i'r *poll*, fel mintai o ychen i'r ffair, i roddi eu pleidlais i Syr Thomas, nid ydynt heb wybod p'un ai efe neu ryw un arall yw y mwyaf addas i'w cynnrychioli yn y Senedd. Ond y mae gormod o ofn y "screw" arnynt i roddi eu pleidlais fel y dymunent. Mae yn rhaid cael gwared o'r "screw." Danfoner hi i'r Tower at y *thumb screw*, y *boot*, *stretcher*, ac offerynau penyd eraill sydd i'w gweled yn y lle hwnw.

Trist yn wir yw meddwl mor ddidrugaredd y gosodir hi ar drigolion Cymru. Er i fod naw o bob deg o honynt yn Ymneillduwyr, nid oes ym mhlith yr aelodau Cymreig ddim cymmaint ag un Ymneillduwr! Y mae ein cydwladwyr gymmaint tan afael meistri y tir fel nad oes braidd un o'u haelodau Seneddol yn gymmwys i'w cynnrychioli. Nid eu dyn eu hunain sydd yn cael ei ddanfon yno, ond dyn y meistr tir. Nid cynnrychioli dynion wna, ond y tai a'r tiroedd, y da a'r defaid. Nid yw ein haelodau ychwaith yn enwog mewn dim yn y Ty ond distawrwydd, ac y mae eu holl bleidleisiau yno fynychaf yn groes i deimladau eu hetholwyr. Beth yw'r achos? Y "screw," yr hon a wesgir yn ddidrugaredd gan y tir-arglwyddi Toryaidd. O Gymru, gwlad yr harddfryniau, mae y cyflwr hwn yn wradwydd i'th Ymneillduaeth! Dihuna o'th gwsc. Mae yn llawn bryd, oblegid mae'r haul uchel yn y dwyrain! Tafl ymaith y gwradwydd hwn.

Ond yn mhellach, nid yn unig danfonai amddiffyniad y Ballot ddynion mwy addas i'r Senedd, trwy osod pawb etholwyr yn annibynol, ond gosodai derfyn hefyd ar fudrwobrwy (*bribery*) mewn Etholiad Seneddol. Mae'r llygredd hwn yn warth ar Brydain. Pwy fyddai mor ffol, gyda dirgel etholiad, a wario ei arian i fudrwobrwyo etholwyr heb un sicrwydd ganddo yn y diwedd am ei pleidlais, oblegid byddai yn gydwybodus fod pwy bynag sydd yn ddigon llygredig i ddderbyn budrwobrwy, yn ddigon anonest hefyd i'w dwyllo ar ddydd yr etholiad. Pwy ond ffol-ddyn osodai ymddiried mewn dyn a wertha ei wlad am fudr elw? Mae'r Senedd wedi cynnyg llawer mesur o bryd i bryd i osod terfyn ar fudrwobrwyo etholwyr, ond y mae yn hawdd deall nad ydyw yn ddifrifol yn y mater. Gwyr ein

Seneddwyr yn eithaf da mai yr unig feddyginiaeth yw y Ballot, ond y mae arnynt ormod o ofn hon, oblegid gwyddant pe celai yr etholwyr eu diogelu â'r Ballot, na chai llawer o honynt hwy byth mwyach dywyllu drws y Ty.

Nid yw canlyniadau y Ballot ychwaith yn anwybodus i'r offeiriaid. Gwyddant yn eithaf da pe celai'r Bobl Senedd wedi ei hethol â'r Ballot, na fyddai dim eisiau Newton mewn rhifyddiaeth i gyfrif blynyddau eu heglwys fel offeryn y Llywodraeth. Gwyddant fod y gred ar gynnydd ym mhlith y werin fod amser Eglwysi Sefydledig wedi myned heibio. Hen bilinod ydynt wedi myned yn rhy fach i'r plant. Rhaid eu taflu ymaith a chael dillad mwy gweddus i faintioli y corph. Mae'r Bobl yn dyfod i ddeall mai anghyfiawn ac annoeth mewn Llywodraeth yw cynnal i fynu Eglwys, a chymmeradwyo un blaid o grefyddwyr yn fwy na'r lleill. Canfyddant hefyd mai tuedd Eglwys Llywodraeth mewn gwlad fel Prydain yw meithrin anghariad, cenfigen, ac ymrysonau; ac mai goreu i gyd p'un gyntaf y sycho y Llywodraeth ei dwylo oddiwrth y fath sefydliad halogedig—goreu i gyd i achos gwir grefydd ac i heddwch a llwyddiant gwladol. Mae'r Offeiriaid yn gweled fod yr ysbryd hwn ar gynnydd trwy hyd a lled y wlad, ac y maent mewn gwewyr. Nid unwaith y clywyd y waedd "Yr Eglwys mewn perygl," pryd nad oedd mewn gwirionedd un perygl yn bod; ond rhodder y Ballot unwaith mewn grym, yna bydd yn bryd i'r Esgobion grynhoi eu dillad yn Nhy yr Arglwyddi, ac i'r Offeiriaid osod eu tai mewn trefn. Am Eglwys yr Iwerddon, dywedodd Mr. Gladstone yn ei araeth odidog a draddododd yn y Ty ar yr unfed-ar-bumtheg o Fawrth, *fod yn rhaid iddi ddarfod fel Eglwys Sefydledig*. Mae'r ddedryd wedi myned allan o enau Arweinydd hyawdl y Rhyddfrydwyr. Rhaid diddymu y Sefydliad halogedig yn y Werdd Ynys, a hyny cyn byddo hir. Cynted ag y cawn Senedd wedi ei hethol â'r Ballot, os nid yn gynt, cyhoedda rhyw Mr. Gladstone, â llais fel y daran, yr un fath ddedryd ar ei hanwyl chwaer yn Brydain. Am hyny dychryn i Offeiriad yw'r Ballot. Gellir bod yn sicr mai rhwyddach o lawer yw ganddo lyngcu credo Athanasius, nag egwyddor y Ballot. Credo Athanasius, swn ydyw heb ddim sylwedd; ond am y Ballot, sylwedd ydyw heb nemawr o swn.

Ond pallai amser i ni yn bresenol i adrodd yr effeithiau a ganlynent y Ballot. Nid rhyfedd gan hyny fod mawrion y wlad yn sefyll allan yn ei herbyn, ac yn ymdrechu gwneyd dynion i gredu mai rhyw beth drwg iawn ydyw—rhyw beth a berai chwildroad ac annhrefn yn ein gwlad.

Dichon fod rhai hen bobl cofio y rhagfarn a'r casineb ddarfu i'r Toryaid gyffroi yn erbyn y Ffrancod oddeutu diwedd y canrif diweddaf a dechreu hwn. Darbwyllasant y wlad i gredu mai rhyw greadur rheibus oedd Ffrancwr, a'i holl fryd ar anrheithio a lladd. Eu dyben oedd cyn-ddeiriogi *John Bull* i fforcho allan o'i gwdyn y *Spade Guineas* i gynnal ym mlaen ryfel a roddai swyddi i'w plant. Rhyfel ffol ydoedd, a rhyfel a feichiodd y wlad a miliwnau o bunnau. Teimlir ei effaith y dydd heddyw, a bydd yn faich ar ysgwyddau plant ein plant. Yr un egwyddor Doryaidd sydd ar waith yn awr yn creu rhagfarn yn erbyn y Ballot ag oedd gynt yn drwgliwio y Ffrancod. Gwyr y Toryaid y gosodai y Ballot derfyn ar wastraffu arian y wlad. Edrychai Senedd a Etholid â'r Ballot i mewn i'r cyflogau mawr a delir i swyddwyr uchel yn y Llynges a'r Fyddin,

Torrai i lawr hefyd y miloedd a delir bob blwyddyn i *Sinecurists*, neu ddynion yn derbyn cyflogau am ryw wasanaeth a wnaethpwyd i'r Wlad gan eu cyn-deidau. A ydych yn meddwl y caniateid y gwastraff chwithig sydd yn cael ei wneyd bob blwyddyn ar arian y wlad, pe cynnrychiolid y BOBL yn y Ty Cyffredin? Na wneid ddim. Gwyr y Toryaid hyn o'r goreu, am hyny nid oes dim a ofnant yn fwy na'r Ballot.

Dywedant fod pleidwyr y Ballot am "*Americaneiddio*" y wlad. Rhyw gyhuddiad rhyfedd! Mae yn wir fod yr Americaniaid yn ethol aelodau y *Congress* â'r Ballot. Mae yn wir hefyd nad oes ganddynt ddim Eglwys Sefydledig, nac Offeiriadaeth uwchafol. Nid ydyw eu Llywodraeth yn ffafrio un blaid mwy na'i gilydd. Nid oes yn America ychwaith ddim Pendefigaeth, na chyfraith *Entail and Primogeniture*, yr hon sydd yn sicrhau yr ystad i'r mab hunaf, ac felly yn cadw y mwyran o'r tiroedd ym meddiant ychydig. Nid yw'r Americaniaid yn wario arian y wlad ar *Sinecurists*, a chyflogau mawr. Maent yn America yn trafod ei materion gwladol cystal a ni yn y wlad hon, ac y maent mor llwyddianus yn eu masnach a ninnau. Pe byddem am "Americaneiddio" Brydain, gallem wneuthur gwaeth drwg.

Dywedir hefyd fod y Ballot yn "*Un-English.*" Nid hawdd yw deall beth feddylir wrth hyn. Os meddwl y maent fod y Ballot yn groes i arferion y genedl, nid yw'r cyhuddiad yn wir. Mae'r Ballot mewn arferiad yn y Llynges a'r Fyddin. Yn y *Political Clubs* hefyd, wrth y Ballot y derbynir aelodau newydd. Ein Seneddwyr yw llawer o aelodau y Clubau hyn. Ym mhlith eu gilydd cymmeradwyant y Ballot; ond os y cynnygir eu hethol hwy i'r Senedd yr un modd ag y maent hwy yn ethol eu gilydd yn eu Clubau, honant fod y dull yn groes i arferion y genedl! Peth "*Un-English*" ydyw, meddant. Nid oes dim gwir yn yr honiad, a gwyr y sawl sydd yn ei wneyd nad oes dim gwir ynddo.

Peth "anwrol" hefyd, meddant, yw y Ballot. "Ni ddylai fod ofn ar neb i roddi ei bleidlais yn gyhoeddus." Ar yr un pryd mae ofn arnynt hwy rhoddi eu pleidlais yn gyhoeddus yn eu Clubau. Nid ofn sydd ar y ffermwr roddi ei bleidlais yn gyhoeddus, ond ofn y canlyniad os anfoddlona berchen ei fferm. Ofni colli ei gwstwmwyr sydd ar y masnachwr. Nid arwydd o anwrolder yw'r ofn hwn. Dichon fod ei ddeilad mor wrol dyn a Syr Thomas i wynebu peryglon, ac efallai yn llawer mwy. Pe gosodai Syr Thomas ei hun yn lle ei ddeilad, celai gyfleistra i wybod beth ydyw'r ofn.

Ond i beidio blino amynedd y darllenydd yn ormod, dywedwn, yn fyr, nad oes un rheswm i gael yn erbyn y Ballot, ond y mae pob rheswm drosti. Fel y sylwasom, gosodai y Ballot derfyn ar fudrwobrwyo yn yr Etholiadau Seneddol. Dywedasom paham. Gosodai y Ballot derfyn ar y meddwi a gymmer le ar ddydd Etholiad, a therfyn hefyd ar y nwydau drwg a gyffröir yn yr ymdrech, hyd yn od ym mhlith cymmydogion. Danfonai y Ballot ddynion mwy addas i'r Senedd na llawer sydd yno yn awr. Gosodai derfyn hefyd ar hen sefydliadau, ag ydynt yn awr yn anaddas i gyflwr y genedl, pa mor addas bynnag oeddynt yn yr oesoedd gynt. Mewn gair, effaith y Ballot fyddai gwellhau cyflwr y wlad yn gyffredin, mor belled ag y mae happusrwydd cenedl yn ymddibynu ar

gyfreithiau cyfiawn. Ni derfynwn y tro hwn yng ngeiriau Mr. Bright mewn araeth a draddododd yn Birmingham yn fuan ar ol pasio yr Ysgrif Ddiwygiadol:—"Y peth nesaf, fechgyn, yw y Ballot." Hyd nes y ceir y Ballot, er mwyn symud ymaith y gwradwydd o ddanfon Toryaid i'r Senedd, cynghorem ein cydwladwyr i ffurfio cymdeithas, a thalu yn helaeth atti, er mwyn amddiffyn y neb a gelai ei droi allan o'i fferm am roddi ei bleidlais yn ol ei gydwybod. Mae yn rhaid i Gymru ddeffroi, neu i fod yn wradwydd i'r byd. Un o'r ddau yw hi.

YR UNDODIAID DDIM YN GWADU CRIST.

Gan mae un o brif ddybenion yr Ymofynydd yw pleidio y ffydd a draddodwyd unwaith i'r Saint—Undodiaeth Gristionogol, fel y gelwir hi gan rai o'i choleddwyr, efallai y caniatewch i mi ychydig ofod i ymddiffyn fy hunan ac eraill o gyffelyb farn grefyddol, yn erbyn y cyhuddiad a ddygir yn aml yn ein herbyn, sef ein bod yn gwadu Crist, Mab y Duw byw.

Beth olygir wrth ddywedyd ein bod yn gwadu Crist? Mae'r *charge* ynddo'i hunan yn eithaf amhenodol. A feddylir ein bod yn gwadu na fu y fath berson yn byw yn y byd erioed? neu a olygir wrth y cyhuddiad ein bod yn amddifad o ymddiried yn yr hyn a ddywedodd—yn ameu ei fod yr hyn y cymerai arno i fod? neu ynte a feddylir, fel yn fwyaf tebyg y gwneir, wrth ein cyhuddo o wadu Crist, ein bod yn gwadu ei Dduwdod? Os ydym yn cael cam fel enwad o Gristionogion, mae hyny ar ryw olwg yn drueni, ac nis gallwn llai na theimlo. Ni fydd hefyd ein cyhuddwyr ar eu henill yn y pen draw, trwy eu hymdrech i enyn rhagfarn y werin anwybodus yn ein herbyn, ac ni fyddwn ninau chwaith yn golledwyr. Y gwirionedd yw y prif beth, ac er mwyn y gwirionedd yr wyf yn ymgymeryd â'r gorchwyl o brofi ein bod yn onest yn credu yn yr Arglwydd Iesu Grist yn ol fel ein dysgir yn y Testament Newydd i gredu ynddo. Yr wyf yn atolwg ar i'r darllenydd i gymeryd fy ymddiffyniad dan ei ystyriaeth fwyaf diduedd, ac i ymddwyn tuag atom fel enwad Cristionogol, megis yr ewyllysiai i ninnau i ymddwyn tuag ato yntau a'i gyd-gristionogion. Nid ydym yn ceisio rhagor.

Wel, nid ydym, mae'n wir, yn credu yn Nuwdod Crist, ond nid yw yn canlyn oddiwrth hyny nad ydym yn credu ynddo. Mae'r holl bwnc yn ymddibynu ar ba un a oedd Crist yn Dduw ai peidio; ac os *nad* oedd, yna gall fod genym wir ffydd ynddo, yr hon a effeithia iechydwriaeth ein heneidiau yn y diwedd. Mewn trefn i benderfynu'r cwestiwn hwn rhaid i ni fyned i'r Testament Newydd ac ymofyn beth oedd crêd yr Apostolion am Grist ac yng Nghrist. Y proselyt cyntaf i gredu yng Nghrist oedd Pedr, ac atolwg, beth oedd y gyffes ffydd a wnaeth? Yn ol Matthew, dyma beth oedd,—"Ti yw y Crist, Mab y Duw byw." A pha beth oedd Pedr yn feddwl wrth ddywedyd fel hyn? A olygai rhywbeth ym mherthynas i *berson* Crist, neu yn unig yn mherthynas i'w *swydd?* Y mae y gyffes hon o eiddo Pedr, feddyliwn i, nid yn dysgu, ond yn bendant yn

gwadu Duwdod Crist. Pa fodd y gall Mab Duw fod yn Dduw ei hunan? Pa fodd y gall yrhwn sydd wedi deilliaw oddiwrth Dduw fod o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb? Ym mhellach, nid yw yn ymddangos fod y geiriau "Mab y Duw byw" yn rhan bwysig iawn o gyffes Pedr, oblegyd y mae Marc a Luc wedi eu gadael allan yn eu hadroddiadau o honi. Yn ol Marc, ni ddywedodd Pedr ond yn unig "Ti yw y Crist," ac yn Luc, dim ond "Crist Duw." Ystyr yr enw Crist yw "Eneiniog," ac nis gall mai Duw yw eneiniog Duw. Pe buasai y geiriau "Mab y Duw byw" yn cynwys sylwedd neu y rhan fwyaf bwysig o gyffes Pedr am natur neu berson Crist, yn sicr ni buasai Marc a Luc wedi eu gadael allan. Os yw hyn o ymresymiad yn dêg, ac nid wyf fi yn canfod un anhegwch ynddo, yna mae yn canlyn mai *swydd* Crist, ac nid urddas ei berson, oedd mewn golwg gan Pedr pan y dywedodd fel y gwnaeth.

Ond iawn yw i Pedr gael cenad i esbonio ei eiriau ei hun. Wedi adgyfodiad Crist cafodd Pedr ei anfon mewn modd neillduol i bregethu i Cornelius, ac i ddysgu iddo egwyddorion cyntaf y grefydd Gristionogol. Traethodd wrth hwnw y ffydd yng Nghrist fel y canlyn:—"Y modd yr eneiniodd Duw Iesu o Nazareth â'r Ysbryd Glân ac a nerth; yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni, ac iachau pawb a'r oedd wedi eu gorthrymmu gan ddiafol; oblegid *yr oedd Duw gyd âg ef.* A ninnau ydym dystion o'r pethau oll a wnaeth efe yn ngwlad yr Iuddewon, ac yn Jerusalem; yr hwn a laddasant, ac a groeshoeliasant ar bren. *Hwn a gyfododd Duw* y trydydd dydd ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg." A oedd gwaith Duw yn eneinio'r Iesu â'r Ysbryd Glân ac â nerth yn profi ei Dduwdod? Yr oedd yn profi'r gwrthwyneb yn hollol. Pe buasai'r Iesu ei hunan yn Dduw, ni buasai arno angen cael ei eneinio. Mae croeshoeliad yr Iesu hefyd, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw y trydydd dydd, yn anghytuno â'r dyb gyffredin o'i Dduwdod. Felly, os oedd gan Pedr ffydd iawn yng Nghrist, yr oedd y cyfryw ganddo heb gredu mai Duw oedd.

Yr un peth i'r manylrwydd yw barn yr Undodiaid am Iesu o Nazareth. Y maent yn credu i Dduw, yr hwn sydd uwchlaw pawb yn fendigedig yn oes oesoedd, ei eneinio â'r Ysbryd Glân ac â nerth, ei gynysgaeddu â mawr ragorol ddoethineb tu hwnt i bawb, roddi iddo'r wybodaeth oedd ganddo mewn modd goruwch-naturiol, ddysgu iddo trwy ddadguddiad union-gyrchol yr athrawiaeth oruchel a bendigedig yr hon a bregethodd, selio dwyfoldeb ei genadwri â'r gwyrthiau a gyflawnodd, a phan oedd yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid wedi ei lofruddio ar y groes, i Dduw ei gyfodi drachefn oddiwrth y meirw, a'i ddangos i'w ddysgyblion, fel y byddai iddynt fod yn dystion o'r pethau tra rhyfeddol hyn, ar ba rai mae Cristionogaeth wedi cael ei sylfaenu, i'r oes hono ac i'r oesau canlynol.

Paham gan hyny mewn modd anwireddus y cyhuddir ni o fod yn angrhedinwyr yng Nghrist, pan yr ydym yn mabwysiadu cyffes Pedr i'r llythyren am dano, yr hon a gymeradwywyd gan ein Hiachawdwr ei hun ac a'i galwyd ganddo yn sylfaen yr Eglwys Gristionogol. Nid oes a fyno cred yng Nghrist â natur ei berson, dim ond yn unig â'r swydd—pa un a wnaeth neu ni wnaeth Duw ei eneinio â'r Ysbryd Glân ac â nerth, pa un a wnaeth neu ni wnaeth Duw ei gyfodi oddiwrth y meirw.

Mae Paul yn cymeryd yr un olwg ar y pwnc hwn yn y bymthegfed benod o'i lythyr cyntaf at y Corinthiaid—"Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer

yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau. Fe a'n ceir hefyd yn gau-dystion i Dduw; canys ni a dystiasom am Dduw ddarfod iddo gyfodi Crist, yr hwn nis cyfododd efe os y meirw ni chyfodir." Hwn gan hyny yw y prif bwynt yn y ffydd Gristionogol, nid fod Crist yn Dduw, ond darfod i Dduw ei gyfodi oddiwrth y meirw. Mae credu fod Crist yn Dduw, ac hefyd i Dduw ei gyfodi oddiwrth y meirw, yn credu pethau hollol wahanol a chroes iawn i'w gilydd.

A phaham yr oedd crêd yn adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw yn beth mor bwysig? Mae Paul yn ateb y gofyniad hwn yn y benod gyntaf o'i lythyr at y Rhufeiniaid—"Ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu yn ol yspryd sancteiddiad, *trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw.*" Nid oedd yr adgyfodiad yn profi dim o Dduwdod Crist, ond yr oedd yn brawf diymwad ei fod yn Fessia, eneiniog Duw.

Yr ydych chwi, Mr. Golygydd, wedi amlygu dymuniad ar i'ch gohebwyr i beidio ysgrifenu Erthyglau meithion, yr ydwyf yn ewyllysgar yn cydsynio, ac yn diweddu y llythr bychan hwn trwy ychwanegu yn unig y gobaith y bydd i bwy bynag a'i ddarlleno, os o'r blaen yn credu ein bod yn gwadu Crist, i beidio credu hyny mwyach. Er y dichon nad yw ein crêd ynddo ym mhob peth yr un â'r eiddynt hwy, gall yr â'r YMOFYNYDD i gonglau lle nad oes un Undodwr erioed wedi cael cyfleusdra i bregethu ei ffydd yng Nghrist, lle na chlybuwyd sôn am ein hathrawiaeth ond fel *system* ddigrist. Ddarllenwyr yn y manau hyny, coeliwch ni pan yn dywedyd ein bod yn credu yng Nghrist, yn credu i Dduw roddi iddo "enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enwi Iesu y plygo pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad." B.

[Yr ydym yn cytuno a phob gair a ddywed ein Gohebydd rhagorol "B." yn yr annerchiad pwysfawr hwn, er hynny caniataed i ni sylwi yr ymddengys i ni fod yn gyflawn bryd i'r Undodiaid rhoddi heibio *amddiffyn* eu hunain rhag ymosodiadau Trindodiaeth, ac o hyn allan i *ymosod ar* Drindodiaeth, oblegid hi sydd wedi llygru Cristnogaeth; hi yw'r estron, ac nid Undodiaeth. Mae yn bryd i'r Undodiaid alw Trindodiaeth i gyfrif, a gofyn iddi, o brysur, beth yw ei bwriad yn llygru Cristnogaeth ac athrawiaeth fawr y Beibl, sef Undod anrhannadwy y Duwdod. Yr ydym wedi bod yn rhy hir ar y *defensive*, dylem o hyn allan gymmeryd yr *offensive*.—GOL.]

Y GENEDL IUDDEWIG.—Dros ddeunaw cant o flynyddau y mae'r Hebrëaid wedi ei gwasgar i wahanol ledredau a gwahanol hinsoddau, ac y maent wedi ymgadw ar wahan yn hollol oddi wrth ymgymmysgiad â chenhedloedd ereill o ddynolryw. Y mae rhai Iuddewon etto yn aros yn nyffryndoedd yr Iorddonen, wedi eu gormesu gan orchfygwyr olynol Syria am oesoedd—hiliogaeth isel o fobl, ac yn cael eu desgrifio gan deithyddion teilwng o ymddiried fel mor ddued ag unrhyw o'r hiliogaethau Ethiopaidd. Y mae ereill o'r bobl Iuddewig, y rhai ydynt yn cyfranogi a wareiddiad Europëaidd, ac yn byw mewn gwledydd gogleddol, yn dangos enghreifftiau o wyneb-pryd goleu—llygaid gleision a gwallt golen fel eiddo'r teulnoedd Scandinafiaidd. Gwelwn ynte y ffordd i gyfrif am wahaniaethau mewn lliw, heb eu cyfeirio at wahaniaeth gwreiddiol a rhywogaethol.

PWYSIGRWYDD PETHAU BYCHAIN.

O'r gwlaw a'i ddafnau bychain,
A mân ronynau'r gro,
Y gwneir y moroedd llydain,
A'r ddaear—fryn a bro.

A'r cyflym fân fynydau
Er lleied y parhânt
Anfesurol oesau
Tragwyddoldeb wnânt.

Trwy fân gamweddau hefyd,
Gwnawn ninnau lithro i ma's,
O ffordd deg rhinwedd hyfryd,
I lwybrau pechod cas.

A mân weithredoedd mwynaidd,
A geiriau cariad cu,
Wna'n dae'r yn Baradwysaidd
Fel y nefoedd fry.

Hadau bach haelioni,
Gan blant fo'n cael eu hau;
Ymgodant er daioni
Byth bythoedd i barhau.

Esgusodion dros beidio myned i'r cwrdd.—Y mae gwr boneddig sydd yn talu sylw manwl i'r cyfryw faterion, yn haeru ei fod o fewn y chwe mis diweddaf, wedi clywed yr esgusodion canlynol yn cael eu gwneuthur dros beidio myned i'r eglwys:—Cysgais yn rhy hir; ellaswn i ddim gwisgo mewn pryd; rhy oer; rhy laith; rhy heulog; rhy gymylog; ddim yn teimlo'n hwylus; dim amser i mi fy hunan; edrych dros fy *nrawers;* gosod fy mhapyrau mewn trefn; llythyrau i'w hysgrifenu at gyfeillion; bwriadu cymmeryd *walk;* myned i gael *ride;* yn rhwymedig wrth y *counter* chwe diwrnod yn yr wythnos; dim awyr ffres ond ar y Sul; yn methu anadlu yn yr eglwys; bob amser mor ddiflas; yn teimlo dipyn yn *feverish;* yn teimlo yn ddioglyd; yn dysgwyl cwmni i giniaw; pen tost; yn bwriadu *nurso* fy hun heddyw; bonnet newydd ddim wedi dyfod adref; rhwygais fy *muslin dress*; nofel newydd, rhaid ei ddychwelyd boreu dydd Llun; ddim wedi fy eillio mewn pryd; ddim yn leicio'r *liturgy*, bob amser yn gweddïo am yr un peth; ddim yn leicio gweddi o'r frest; ddim yn leicio organ, mae'n ormod ei swn; ddim yn leicio canu heb fiwsig, y mae yn fy ngwneyd yn *nervous;* yr ysbryd yn foddlawn, ond y cnawd yn wan; yn casäu pregeth ddifyfyr, mae'n rhy ffrothog; nid alla i ddim a dyoddef pregeth ysgrifenedig, mae'n rhy ryddieithog; neb heddyw ond ein gweinidog ein hunain, nid alla i ddim gwrandaw bob amser ar yr un pregethwr; ddim yn leicio dieithriaid; ddim yn gallu cadw yn effro, cysgais y tro diweddaf y bum yno, ni reda i mo'r *risk* etto; yn bwriadu gofyn i ddynion synwyrol yng nghylch y priodoldeb o fyned i'r fath le ag eglwys, a chyhoeddi'r canlyniad.

YCHYDIG O HANES PELAGIUS.

Fe gyfaddefir yn gyffredin mai Brython oedd Pelagius. Y mae yr holl hen ysgrifenwyr yn cyttuno i'w alw yn Frython, medd Wall, ac yr ydym yn cael ein hyspyssu gan St. Austin, ei fod yn cael ei alw yn gyffredin yn Pelagius y Brython i'r diben o'i hynodi oddiwrth Pelagius arall o Tarentum. Dywedir ei fod wedi cael ei addysgu mewn Mynachlog, neu Goleg enwog yn Bangor, yn swydd Flint, am drefniant yr hwn yr adroddir llawer o bethau pur hynod. Hyspysir ni fod y Mynachod, neu y Myfyrwyr wedi eu dosparthu i bedwar dosparth ar ugain, ac yn gynwysedig o gynifer o ganoedd o bersonau. Yr oedd pob dosparth yn treulio awr bob dydd mewn defosiynau, yr hyn oedd yn cael ei wneud gan y naill dosparth ar ol y llall yn olynol fel ag oedd yr holl amser uchod, sef pedair awr ar ugain, yn cael ei dreulio mewn addoliad dwyfol gan y frawdoliaeth.

Yr oedd y rhan arall o'r amser yn cael ei dreulio gan bob dosparth yn rheolaidd rhwng cysgu, erlyniadau llenyddiaeth, ac amaethyddiaeth, fel y gellir dywedyd am danynt eu bod yn ymddybynu am eu cynhaliaeth a'r eu llafur eu hunain, ac wrth chwys eu hwynebau.

Ymddengys fod Pelagius wedi gwneud cynydd anghyffredin yn y sefydliad uchod mewn llenyddiaeth, oblegid yr ydym yn cael hanes ei fod wedi meistroli yr iaethoedd Groeg a Lladin, a phob cangen arall o wybodaeth a ystyrid, pryd hyny, y mwyaf angenrheidiol ac enwog, yr hyn oedd fwy na ellesid ddywedyd am y rhan fwyaf o'r tadau (fel eu gelwir) o'r cyfnod hwnw: nid oedd St. Austin yn eithriad: St. Jerome, efallai oedd yr unig eithriad braidd. Yr oedd ef yn ddysgedig iawn; ond ar yr un pryd yn antoneddigaidd, crintachlyd, ac yn enllibo pawb a wahaniaethent oddiwrth ef, neu gyda'r rhai oedd unrhyw ymryson rhyngddo ef a hwy, ynghylch yr hyn oedd gan Pelagius a'i gyfeillion, yn nghystal a Ruffinus, wir achos i achwyn. Ni waeth yn y byd ganddo beth wnelai os gallasai fychanu ei wrthwynebydd. Tybir nas gallasai y Prydeiniaid ymffrostio erioed o'r blaen, nac am beth oesoedd wedi'n, mewn dyn mor ddysgedig a dillynaidd â Pelagius, a phe na buasai wedi syrthio dan wg a sen y fath ddynion ag Austin, Jerome, a'r Pab, y tebygolrwydd yw y buasai ei enw mewn bri yn mhob oes olynol yn lle cael ei osod i fynu, fel y mae wedi, ac yn cael ei osod i fynu, gan lawer, fel gwrthddrych gwarth a dirmyg.

Wedi iddo ymadael a'i wlad enedigol, ynghylch dechreu y bumed ganrif, dywedir iddo ymweled a Ffrainc, a threulio peth o'i amser yn mhlith ei gydwladwyr yn *Brittany*. Aeth oddi yno i Rhufain,* yn mha le yr enwogodd ei hunan i raddau helaeth iawn trwy ei dduwioldeb mabaidd a rhinweddau canmoladwy a gwerthfawr eraill. Pan oedd y Gothiaid yn goresgyn *Italy*, ac yn agoshau at Rhufain, y ddinas dra-

* Aeth Pelagius i Ryfain oddeutu y flwyddyn 400 o oed Crist. Cymro hefyd oedd Celestius. Darfu i Celestius gyd-deithio â Pelagius o Ryfain i Jerusalem. Gair Groeg yw Pelagius, yn meddwl yr un peth a Morgan. *Genedig o'r Mór.* Beth oedd ei ddyben yn cyfnewid ei enw nis gwyddom.—[Gol].

gwyddol fel ei gelwir, enciliodd o'r ddinas, ac aeth drosodd i *Sicily*, a chwedi hyny i Africa; o ba le yr aeth yn fuan i Jerusalem, lle y cafodd dderbyniad groesawus, ac yr oedd mewn parch mawr gan y Patriarch Ioan, ac eraill o'r cristionogion yn y wlad hono.

Yn ystod ei arosiad byr yn Sicily ac Affrica, cafodd Austin allan nad oedd yn meddwl nac yn siarad fel ef ar rai pynciau crefyddol. Barnodd, gan hyny, mai cymhwys oedd codi llef ffyrnig ar yr achlysur, ac ysgrifenu yn ei erbyn. Ar yr un pryd, meddai ar ddigon o onestrwydd i ganmol ei gymeriad moesol a'i dduwioldeb. Y mae yn siarad am dano hefyd fel dyn o alluoedd meddyliol, ac o gyrhaeddiadau anghyffredin, ac fel un a ganmolai ac a garai oni bai ei opiniynau gwrthdyhiol; yr hyn, rhaid yw cyfaddef, oedd ganmoliaeth, nid bychan, oddiwrth y fath ddyn. Nid oes neb o'r hen wrthwynebwyr wedi siarad yn wahanol am ei gymeriad oddigerth Jerome, yr hwn, oblegid ei ragfarn ddall, a'i gulni meddyliol, nas gallasai siarad gyda thegwch a chyfiawnder am neb oeddynt yn anghyttuno ag ef ynghylch unrhyw bwnc. Priodol yw sylwi yn y man hyn, efallai, fod gormod o ysbryd Jerome yn ffynu yn ein gwlad hyd heddyw, ac y mae yn beth pur debyg yr â cryn dipyn o amser heibio eto, os ydym i farnu wrth arwyddion yr amserau, cyn y gwawria y cyfnod dedwydd hwnw ar ein byd, pan y bydd dynion yn cyttuno i anghyttuno. O ran ei berson, dywedir fod Pelagius yn ddyn pur lydan; ysgwyddau crwn, ac yn unllygeidiog; ond nad beth oedd o ran ei berson, amlwg yw ei fod yn ddyn ag oedd yn feddianol ar gymeriad dysglaer ac ar gyrhaeddiadau tu hwnt i'r cyffredin o ddigon, fel ydys wedi sylwi yn barod. Ymddengys ei fod yn ddyn gwylaidd a chymedrol. Nid oedd yn awyddus i wthio ei opiniynau neillduol ei hun ym mlaen, nac yn hoff o siarad fyth a hefyd ynghylch y pynciau hyny, gyda golwg ar y rhai y gwahaniaethai oddiwrth eraill. Siaradai a mytyriai yn benaf ar y testynau ymarferol hyny y cyttunid yn eu cylch gan bawb partïon; ond amlwg yw, ar yr un pryd, ei fod yn feddyliwr trwyadl.

Yn ystod yr amser y bu yn Rhufain, ymddengys na fabwysiadodd neb syniadau anffafriol ynghylch ei wrthdyb, ac yn y llyfrau a ysgrifenodd, yn neillduol ei sylwadau ar Epistolau Paul, dywedir fod syniadau annerbyniol wedi cael eu dwyn yn mlaen fel syniadau eraill yn hytrach nac fel eiddo ei hunan. Yr oedd Celestius, modd bynag, ac ereill, y rhai oeddynt edmygwyr Pelagius, yn fwy agored ac ëon, ac ni ddarfu iddynt betruso dwyn ym mlaen amryw opiniynau, y rhai a ystyrid yn gyfeiliornus gan Austin, Jerome, a'u canlynwyr. Yr opiniynau y cyfeirir atynt, ydynt y rhai canlynol (os ydyw eu gelynion wedi eu gosod allan yn deg, yr hyn sydd beth pur amhëus):—

1. Fod Adda wedi cael ei greu yn farwol ac y buasai yn marw pu'n ai buasai yn pechu ai peidio.

2. I bechod Adda ei niweidio ef yn unig, ac nid ei hiliogaeth.

3. Fod plant newydd eni yn yr un cyflwr ag oedd Adda ynddo cyn y cwymp; cyn iddo syrthio.

4. Y gall dynion yn rhwydd gadw gorchymynion Duw os yr ewyllysiant.

Gan y dywedid mai cyfaill Pelagius oedd Celestius, priodolid yr opiniynau uchod i Pelagius o gwrs; ond nid oes yr un prawf amlwg i'w gael

ei fod ef yn eu mynwesu mewn gwirionedd; yn y gwrthwyneb, dywedir wrthym ei fod yn eu diarddelwi; o'r hyn lleiaf fel y mynegid ac y darluniid hwynt gan ei wrthwynebwyr, yn erbyn y rhai y mae yn cwyno, fel cyhuddwyr ac athronwyr gau. Ymddengys gan hyny, na ddylem ymddibynu ar y darluniad ag y mae ei elynion wedi roddi o'i opiniynau. Anfynych iawn, os yn wir, un amser, y mae dallbleidwyr, ac ymrysonwyr llidus (y fath ag oedd Pelagius i'w gwrthwynebu) yn rhoddi darluniad teg o syniadau eu gwrthwynebwyr. Ymddengys, modd bynag, yn bur amlwg, fod Pelagius yn gwahaniaethu yn mhell oddiwrth yr enwog seintiau, Jerome ac Austin, a'r Cristionogion yn Africa, ynghylch cyflwr gwreiddiol dyn, effeithiau y cwymp, sefyllfa babanod, a gallu dyn i gyflawni ewyllys y Creawdwr, sef cadw ei orchymynion; ond nid yw yn ymddangos ei fod ef yn mabwysiadu yr opiniynau uchod fel oedd ei elynion yn eu deall, ac yn eu hesbonio.

Cymmaint a hyn yn bresenol am ein gwladwr enwog a dysgedig, Pelagius. Rhagor am dano y tro nesaf. MHACK.

I BLANT YR YSGOL SABOTHOL.

GYFEILLION IEUAINC, wele ni yn dyfod i ymweled a chwi unwaith etto, gan obeithio eich bod yn dyfod yn ddyfal i'r Ysgol bob Saboth, yn ufudd i'ch hathrawon, ac i'ch rhieni gartref. Cofiwch mai yn awr yw yr amser goreu i chwi blannu egwyddorion da yn eich calonau.

Yn ein Rhifyn diweddaf gwnaethom ychydig o nodiadau ar bum Llyfr Moses a Llyfr Joshua. Gobeithio eich bod erbyn hyn wedi eu darllen yn fanwl. Nid cynllun annoeth fyddai i chwi ac i'ch athrawon, ar ol gorphen eich gwaith yn y *class*, ddarllen ein gwersi, os gwelwch hwynt o werth, gyda'ch gilydd, a gwneyd eich sylwadau arnynt. Yn amryw o'n hysgolion Sabothol yn Lloegr mae yn arfer gan yr athrawon a'r hysgolheigion, i roddi cymmaint a hanner awr, weithiau ragor, i ddarllen ar ryw bwnc crefyddol neu duwinyddol, a gwneyd eu sylwadau ar yr hyn a ddarllenant. Ym mhen ychydig amser, y maent yn cael pleser ac adeiladaeth yn y gwaith. Felly y cewch chwithau.

Y nesaf at Lyfr Joshua yw Llyfr y Barnwyr. Nid oes neb yn gwybod yn sicr pwy yw awdwr y Llyfr hwn ychwaith. Tybia rhai mai Samuel ydyw, ac y mae yn beth eithaf tebyg mai efe a'i hysgrifenodd.

Yn yr amser hwn yn Israel yr oedd sefydliadau mewn bod a elwir "Ysgolion y Prophwydi." Gelwid yr ysgolheigion yn "Feibion y Prophwydi" (I Bren. xx., 35). Yr un peth sydd i'w ddeall wrth "Feibion y Prophwydi" a Dysgyblion y Prophwydi. Rhyw hen brophwyd anrhydeddus a phrofiadol fyddai yr athraw. Peth eithaf tebyg yw i Samuel ddysgu prophwydi ieuainc. Un peth a ddysgid iddynt oedd prydyddia. Peth anhepgorol angenrheidiol i brophwyd oedd y dawn prydyddawl, oblegid ym mhlith pob cenedl, mewn prydyddiaeth y

traddodid addysg i'r bobl yn yr hen oesoedd. Prydyddiaeth yw y rhan fwyaf o ysgrifeniadau prophwydi yr Hen Destament, fel y cawn ddangos cyn bo hir. Egwyddorid y prophwyd ieuanc hefyd yng nghyfraith Jehovah. Y meddwl cyffredin sydd gan ddynion am brophwyd yw mai un oedd a gynnysgaeddid gan Dduw i ddatguddio i ddynion bethau i ddyfod cyn y cymmerent le. Ond rhan o swydd y prophwyd oedd hyn, a rhan fechan hefyd. Yr oedd yn swydd y prophwyd i drafod materion gwladol, ac i gynghori tywysogion. Efe oedd dysgawdwr y bobl. Os byddai eu hymddygiad yn anfoesol a drwg, cynghorai y prophwyd hwynt i edifarhau ac i adael eu ffyrdd pechadurus. Datganai iddynt feddwl ac ewyllys yr Arglwydd. Bwgwthiai hwynt pan fyddent yn canlyn ffyrdd drwg, ac annogai hwynt i bob daioni. Yr oedd rhai o'r prophwydi yn ddynion celwyddog a dau-wynebog, ond ar y cyfan dynion bucheddol oeddynt, yn ofni Duw, a dynion a feiddient geryddu brenhinoedd pan fyddai eisiau.

Y prophwydi hefyd oeddynt groniclwyr y genedl. Wrth *groniclwyr* y deallwn ddynion a ysgrifennent hanes eu hoes, a'r pethau a gymmerasant le yn amser eu cyndeidiau. Nid oes dim ammheuaeth yn awr ar ein meddwl ni nad rhyw rai a berthynent i ysgolion y prophwydi yn amser Samuel, a chwedi hyn, yw awdwyr y rhan fwyaf o lyfrau yr Hen Destament. Tybied ydym hefyd mai hwy a gyfansoddasant lawer o'r Salmau a briodolir i Dafydd. Nid oes dim ammheuaeth genym ychwaith nad oedd y dyn mawr hwnnw yn perthyn i ysgolion y prophwydi. Yn eu plith y cwrteithiodd ei ddawn prydyddawl, ac yn eu brwd gyfeillach y disgynai arno yr ysbryd a dorrai allan ar brydiau yn ffrwd o syniadau mawreddog am Dduw—y fath ag ydynt wedi rhoddi llafar i deimladau crefyddol miloedd ym mhob oes o'r byd.

Os nid Samuel yw awdwr llyfr y Barnwyr, cafodd yn sicr ei gyfansoddi oddeutu ei amser, a chan ryw un o ysgolion y prophwydi. Dyben y llyfr yw rhoddi hanes y genedl o amser Joshua hyd ddechreuad brenhinaeth Saul. Mae'r hanes yn fyr ac anghyssylltiadol, yn ol dull prophwyd o ysgrifenu. Dyma amser y barnwyr, sef o Joshua hyd Saul. Mae yn ofynol i chwi ddeall mai nid brenhinoedd oedd llywodraethwyr cyntaf Israel. Duw yn unig oedd eu Brenin y pryd hwn, a gelwir eu llywodraeth, o'u hymadawiad o'r Aipht hyd eu brenin cyntaf, *Dwylywiaeth*, neu yn saesneg *Theocracy*.

Bu Moses farw oddeutu y flwyddyn 1452 cyn geni Crist. Fel y dywedasom yn rhifyn Ebrill, 1868 sydd o flynyddau er pan y ganwyd Crist, yn ol y cyfrif cyffredin. Ar farwolaeth Moses appwyntiwyd Joshua i arwain y bobl, ac i ymladd eu gelynion. Bu yntau farw oddeutu y flwyddyn 1426 cyn Crist. O'i amser ef hyd pan yr eneiniwyd Saul yn frenin, arolygwyd materion gwladol y genedl gan swyddwyr a elwid *Shophetim*, a gyfieithir *Barnwyr*. Parhaodd y dull hwn o lywodraeth oddeutu 331, a chyfrif o farwolaeth Joshua. Y cyntaf o'r Barnwyr oedd Othniel, a'r diweddaf a sonir am dano yn y llyfr hwn yw Samson, ond nid y diweddaf o'r Barnwyr. Yr oedd Samuel ac Elias ar ei ol.

Yr ydych yn gofyn "Beth oedd swydd Barnwr?" Mae ystyr tra helaeth i'r geiriau *Barnwr*, *Barnu*, a *Barn* yn yr ysgrythyrau. Y *Shophêt* neu y *Barnwr* oedd yn penderfynu materion gwladol y genedl neu y llwyth y perthynai iddo, oblegid yr oedd swyddog a elwid *Shophêt*

fynychaf ym mhob llwyth. Yr oedd rhai o honynt yn ddynion esgeulus, diofal, a drwg. Pan ddigwyddau fod barnwr neu farnwyr annheilwng mewn pwer, elai materion gwladol y llwyth neu y llwythau i annhrefn, a ffynnai anghyfiawnder, anonestrwydd, a gorthrymder. Dyma fel mae hi wedi bod ym mhob gwlad, oes, a chenedl, gyda llywodraethwyr drwg. Swydd y *Shophêt* hefyd oedd gweinyddu y gyfraith, cospi drwg weithredwyr, a gwneuthur cyfiawnder rhwng dynion fyddai yn amrafaelio a'u gilydd. Efe hefyd oedd i gyhoeddi rhyfel pan fyddai eisiau, ac efe oedd y cad-lywydd yn ei lwyth. Pan fyddai y llwythau yn *cyduno* i wrthwynebu i gelyn, ac i ryfela yn ei erbyn, appwyntient y *Shophêt* mwyaf addas a gwrol i fod yn brif lywydd. Dynion o'r fath hyn oedd y Barnwyr, a ddarllenwn am danynt yn y llyfr hwn, neu y rhan fwyaf o honynt. Er i fod awdurdod y Shophêt yn helaeth, yn enwedig yn amser rhyfel, nid oedd ei awdurdod ef byth yn gyfartal i awdurdod Brenin. Edrychid ar y *Shophêt* fel *gwas* y llwyth, ond ar frenin fel *arglwydd.* Yr oedd yn rhaid i'r *Shophêt* i gospi yn ol y gyfraith, ond am y brenin, yr oedd bywydau a meddianau ei ddeiliaid yn ei law. JEHOVA ei hun oedd brenin y genedl yn amser y Bwrwyr. Gwnelai ei ewyllys yn adnabyddus i'w bobl ar glawr yr arch yr hon a gedwid yn ofalus mewn dirgel ystafell yn y cessegr. Ni chaniateid i neb fyned i mewn i ystafell yr arch—ond i'r prif offeiriad, ac iddo yntau ond dwywaith yn y flwyddyn.

Yn awr, blant, os dysgwch chwi y wers hon yn drwyadl, bydd genych ryw ddrychfeddwl am natur llywodraeth plant Israel o amser ei hymadawiad o'r Aipht hyd eu brenin cyntaf, sef Saul. Llywodraethid hwy gan Shophetim, a gyfieithir Barnwyr. Swyddogion oeddynt hwy dan y BRENIN MAWR sef JEHOVA, oblegid efe oedd eu brenin y pryd hwn; ac yn awr chwi wyddoch pa fodd yr oedd efe yn gwneuthur ei feddwl yn adnabyddus iddynt, sef oddiar glawr yr arch. Ar y clawr hwn yr oedd llun dau angel a elwid *cherubim.* Math o flwch neu *box* oedd yr arch. Ynddi oedd llechau y gyfraith a dderbyniodd Moses gan Dduw ar fynydd Sinai. Yn yr arch hefyd oedd gwialen Aaron, Num. xxvii. 2. Os darllenwch chwi lyfrau Samuel a'r Brenhinoedd, chwi gewch wybod llawer o bethau a ddigwyddasant i'r arch yn ystod rhyfeloedd y genedl â hen drigolion y wlad, sef y Philistiaid. Yr oedd i'r ddau angel ar glawr yr arch adenydd ymdaenedig. Safent ar y clawr wyneb yn wyneb, a'u pennau yn gogwyddo ychydig tua'r llawr. Rhwng y ddau angel hyn yr ymddangosau, i'r archoffeiriad pan yr elai i ystafell yr arch, golofn fechan o niwl, neu dân. Dyma y peth a elwid y *Shekinah,* sef y Presenoldeb Dwyfol. O'r niwl neu'r tân hwn y llefarai Jehovah wrth yr Archoffeiriad, ac y gwnelai ei ewyllus yn adnabyddus i'r bobl, yn enwedig i'w prif swyddogion, y *Shophetim.* Gelwir clawr yr arch weithia yn *drugareddfa,* oblegid oddiarni yr oedd Jehovah yn *trugarhau* wrth y bobl. Cydmara Paul Iesu Grist i'r clawr hwn, oblegid y mae Duw yn maddeu yng Nghrist, mewn un ystyr, yn debyg i'r dull y maddeuai i'r Israeliaid yn yr hen oesoed. Yn yr amser hwnnw gwnelai ei ewyllys yn adnabyddus i'r bobl trwy y Shekinah ar glawr yr arch, ond yn awr Crist Iesu yw y Cyfrwng. Dyma gydmariaeth Paul, ac nid un anaddas ydyw ychwaith.

Darllenwch lyfr y Barnwyr, yn fanol gyda'r sylwadau uchod: chwi

ellwch wneyd hyn yn yr ysgol ar y Saboth. Chwiliwch allan hefyd ar y map bob lle a ddarllenwch am dano. Dyma'r ffordd i gael adeiliadaeth wrth ddarllen. Nid oes gennym ni ddim amser i wneuthur sylwadau ar y Barnwr Samson. Mae ei hanes yn nodedig, ac nid ydym ni yn gweled un achos i gredu nad ydyw yn wir.

I adnewyddu eich côf, gosodwn i lawr yr amsernodau canlynol:—

	C.C.
Yr ymadawiad o'r Aipht	1491
Moses yn marw (110 oed)	1452
Joshua yn marw (110)	1426
Saul yn cael ei eneinio yn frenin	1095

Wrth y llythrenau "C.C." mae i chwi ddeall "Cyn Crist." Yr oedd gennym stori i ddyweyd wrthych cyn ymadel, ond yn gymmaint a'n bod yn ofni ein bod wedi gwasgu gormod ar eich amynedd yn barod, ni a'i cadwn hi erbyn y tro nesaf. Dydd da i chwi bawb, blant ac athrawon.

Atebion a Gofyniadau.

Myfyriwr.—Meddwl ydym eich bod yn derbyn rhyw fudd oddiwrth ein hattebion, onite ni fyddech yn danfon gofyniadau i ni bob mis. Mae yn dda i chwi nad yw eich enw yn adnabyddus i'r brodyr, onite celech eich galw i gyfrif ganddynt. Yr ydym wedi dyweyd ein meddwl yn barod ar lyfr Mr. Chamberlain yn ein hatteb i T. E. yn rhifyn Ebrill. Yn awr yr ydych yn gofyn ein meddwl ar Pen. iii o'i lyfr, lle y traetha ar "Angel Jehovah." Nid Mr. C. yw y cyntaf sydd wedi ceisio darbwyllo dynion i gredu mai yr Arglwydd Iesu Grist oedd yr Angel hwnnw.

Peth anhawdd iawn yw cael gan ddynion, hyd yn oed dysgedigion i ddarllen yr Ysgrythyrau yn ddiragfarn. Cymmaint ydynt tan ei ddylanwad nes y meddyliant ei bod yn canfod profion o athrawiaeth y Drindod bron ym mhob adnod. Nis gallwn lai na'u cydmaru i ddyn yn gwisgo spectal wyrdd. Ymddengys pob gwrthrych iddo yr un lliw a'i spectal. Y neb sydd am ddeall yr Ysgrythyrau, mae yn ofynol iddynt ymddihatru yn hollol o ddylanwad rhagdybiau—taflu ymaith y spectal wyrdd.

Y peth cyntaf braidd wna Mr. C. yn y dosparth hwn o'i lyfr yw beio ar lyfr Mr. Wilson, sef "*Concessions of Trinitarians.*" Llyfr "*unsound*" yw medd efe, am fod Mr. W. yn dyfynu addefiadau awdwyr, megys Tillotson, ag oeddynt yn iach yn y ffydd Drindodaidd. Dylasai Mr. C. ystyried na fuasai addefiadau neb arall yn atteb dyben Mr. W. yn gystal ag eiddo Trindodiaid pur. Prif ddyben Mr. W. yw dangos fod pob adnod yn y ddau Destament a feddylir eu bod yn dysgu Duwdod Crist, wedi cael eu rhoddi i fynu gan ryw esboniwr Trindodaidd neu gilydd. Ymddengys i ni fod llyfr Mr. W. wedi rhoddi peth trwbwl i Mr. C.

Yn nesaf, â Mr. C. ym mlaen i ddangos mai bod gwahanol i Jehovah

oedd Angel Jehovah, yn gymmaint a bod y *danfonwr* yn wahanol i'r *danfonedig*. Sylwa nad yw y ffaith fod un yn cael ei ddanfon yn dangos ei fod yn *israddol* i'r hwn a'i danfona, ac i fod engreifftiau yn dygwydd bob dydd a ddangosant fod y danfonedig yn gydradd â'r hwn a'i denfyn, ac hyd yn oed yn uwchradd nag ef; hynny yw, yn ol y casgliad a dynnwn ni, fod cenhadwr brenin yn ogyfuwch â'r brenin ei hun. Nid yw *israddoliaeth swyddol*, medd efe, yn ddangos *anghyfartaledd*. Y casgliad a dyna oddiwrth hyn yw, nad yw yn canlyn fod Angel Jehovah yn israddi i Jehovah ei hun oddiwrth y ffaith mai danfonedig ydyw. Nid ydym ni yn gallu gweled fod y rhesymiad hwn yn atteb dyben yn y fan yma. Y peth ddylasai Mr. C. wneyd yw ddangos, trwy brofion diamimheuol, mai Angel Jehovah feddylia yr hanesydd wrth Jehovah, ond nid y Jehova ag syddyn ei ddanfon. Wedi gwneyd hyn, y peth nesaf fuasai dangos, i foddlonrwydd pob dyn rhesymol, mai ein Harglwydd Iesu Grist oedd yr Angel Jehovah. Cynnyga wneuthur hyn, mae'n wir, ond cewn ddangos, cyn diweddu, fod ei resymiad yn rhy wan i ddarbwyllo neb sydd wedi talu sylw manwl i'r peth, ac yn ceisio barnu yn ddiragfarn, i gredu athrawiaeth mor groes i ganol swn yr Ysyrythyrau ag ydyw y Drindod.

Yn gymmaint, am hyny, ag nad yw Mr. C. yn profi mai bod gwahanol oddiwrth Jehovah, y danfonwr, feddylia yr hanesydd wrth "Angel Jehovah," nid oes genym ni hawl i roddi i fyny yr hen dyb resymol, sef mai Jehovah y danfonwr feddylia'r hanesydd pan y gosoda y gair Jehovah yn lle Angel Jehovah. Nid yw y sylw a wna ar enw y ffynon—*Lahai Roi*—ddim i'r pwrpas, oblegyd gwyddai Hagar mai cenad Jehovah oedd yr Angel. Mae yr un sylw hefyd yn briodol mewn perthynas i Abraham a Jacob. Gwyddent mai cenadon Jehovah oedd y personau a ymwelasant â hwy. Geilw yr hanesydd hwynt Jehovah am eu bod yn cynnrychioli Jehovah. Uwch yn ei feddwl yw'r Anfonwr, sef Jehovah, na chyfrwng y gennadwri. Cyfryngau yn unig oeddynt hwy. Jehovah oedd yr achosydd Mawr. Efe yw y cyfan yng ngolwg yr hanesydd Am hyny colla ei olwg ar y cennadydd ym mawredd gogoniant y Bod sydd yn danfon y gennad. Weithiau hefyd desgrifia yr hanesydd y cennadwr fel yn galw ei hun yn Jehovah, am yr ystyriai fod y cennadwr wedi ei wisgo ag awdurdod y BRENIN MAWR, a'i fod yn gydwybodus o'i awdurdod.

Yn olaf, gadewch i ni ystyried, yn fyr, y rheswm sydd gan Mr. C. i brofi mai Iesu Grist oedd yr Angel Jehovah, oblegid dyma'r prif bwnc, sef profi yr hunandeb neu'r *identity*. Ond, O rhyfedd mor wan yw'r prawf! Ymddibyna yr hunandeb ag sydd o gymmaint pwys i'w sefydlu ar un adnod dywyll yn y prophwyd Malachi (iii. 1), ac ar un frawddeg yn yr adnod! Sonia y prophwyd am "Angel y cyfammod." Neidia Mr. C. i'r casgliad mai yr Angel hwn ymddangosodd i Hagar, Abraham, a Jacob, ac mai yn rhaid mai Iesu Grist ydoedd. Ond a ydyw y desgrifiad yn yr adnod yn gweddu i Grist? Dywedir am y person hwn y "purai efe feibion Levi fel y byddent yn offrymmu i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder." Barnu ydym yr addefai y Trefnyddion i'r oruchwyliaeth Efangylaidd ddifodi y ddeddf seremoniol. Lled debyg yw, gan hynny, mai nid Iesu Grist feddyliai y prophwyd, efallai Judas

Maccabeus, neu ryw un arall a fyddai yn offerynol i ddiwygio yr addoliad yn y Deml.

Heb ychwanegu, yr ydym yn rhwym o wrthod cyfundraeth Mr. C. ac eraill y'nghylch "Angel Jehovah" fel peth hollol ddisail yn yr Ysgrythyrau, ac wrth ddiweddu dioddefwch i ni sylwi, os nad oes gwell rhesymau gan y Trefnyddion ac eraill dros gredu yn athrawiaeth y Drindod, na'r gyfundraith hon, doethach fyddai iddynt, a mwy mawrfrydig fyddent, pe rhoddent hi i fynu ar unwaith a dychwelyd at athrawiaeth y Beibl, sef anrhannadwy undod Jehovah.

Syr,—Os nad ydych mewn meddiant o atteb mwy trefnus i'r gofyniad yn Rhif. Ebrill, mae y canlynol at eich gwasanaeth. Galwer y munudbin M, a'r awr-bin N. Tra symmuda N o'r man lle yr oedd pan aethoch allan o'r ty, i'r man lle yr oedd pan ddychwelasoch, symmuda M 12 cymmaint, ac erbyn y cyrhaedda y man lle yr ydoedd pan aethoch allan, bydd wedi symmud 13 cymmaint ag N. Rhwng y ddau amser mae 4 awr-ranniad, am hynny symmuda M 48 awr-ranniad ac N 48 ÷ 13, neu $3\frac{9}{13}$. Yn nesaf, rhaid cael allan pa mor bell o 12 yr oedd M pan aethoch allan o'r ty. Mae yn eglur fod yn rhaid i M symmud dros yr awr-ranniadau o 12 i 3, dros $3\frac{9}{13}$, a thros gymmaint ag y symmuda N yn y cyfamser, sef $3 + 3\frac{9}{13} + \frac{87}{143}$, neu $7\frac{43}{143}$ o awr-ranniadau. Gan i fod 5 munud rhwng pob awr-ranniad a'i gilydd, y munudau a symmuda M drostynt o 12 i'r man lle yr oedd pan aethoch i rodio, ydynt $7\frac{43}{143} \times 5$, neu $36\frac{72}{143}$. Am hyny yr oedd yn $36\frac{1}{2}+$ munud wedi 3 pan aethoch maes o'r ty. Dichon fod $\frac{87}{143}$ yn gofyn eglurhâd i'r darllenydd. Dynoda faint o un awr-ranniad mae N yn symmud tra fyddo M yn myned tros $3\frac{9}{13}$. Eglur yw fod M yn ennill 11 ym mhob 12 ar N, yna

$$11 : 1 = 6\frac{9}{13} : \frac{87}{143}.$$

Philomathes.

[Derbyniasom atteb hefyd oddiwrth A.B.C., ond yr oedd yr uchod mewn *type* pan y daeth ei atteb i'n llaw.]

W. T. R.—Yr ydych yn ceisio esboniad ar Phil. ii., 6, a dywedwch fod y Trindodwyr yn eich luchio chwi â'r adnod. Dyma arfer dynion anhyddysc yn yr Ysgrythyrau. Os cânt hwy adnod a fyddo yn swn ei geiriau yn tebygu rywbeth i'r dychymmyg sydd ganddynt am Drindod, adroddant hi fel prawf, gan nad mor bell bynnag fyddo hi mewn gwirionedd a gadarnhau yr athrawiaeth mewn dadl. Os bydd rhyw debygolrwydd yn swn y geiriau, nid ydynt hwy yn ymofyn dim yn rhagor

Pwy bynag ddarlleno ddechreu y bennod hon yn fanol a wel fod yr Apostol yn annog y Philipiaid i undeb a phob gostyngeiddrwydd meddwl trwy siampl o ufudd-dod a derchafiad Crist. Pe fyddai y meddwl cyffredin am yr adnod hon yn wir, buasai yn rhaid i'r Apostol eu hannerch mewn ystyr yn ryw beth cyffelyb i hyn:—"*Bydded ynoch y meddwl gostyngedig oedd yng Nghrist Iesu, yr hwn ag efe yn ffurf Duw yn ei natur a phob priodoledd, ni thybiodd mai trais, ond peth eithaf cyfiawn oedd iddo ef fod yn ogyfuwch â Duw yn ei natur a phob priodoledd, ond nid ystyriodd ei hun felly, eithr efe a ddibrisiodd hun.*" A fuasai ymresymiad o'r fath hyn yn deilwng o'r Apostol yr hwn sydd ysgrifenwr gofalus? Os hyn oedd ei feddwl mae yn yr adnod adeiriad (*tautology*). Nis gallwn

ni weled ychwaith y buasai y fath dyb uchelfrydig yn siampl neillduol o ostyngeiddrwydd yn yr Iesu.

O'r tu arall, ymddengys i ni mai yr hyn a ganlyn oedd meddwl yr Apostol:—"*Bydded i fod yr un meddwl gostyngedig ynoch chwi ag oedd yng Nghrist Iesu, yr hwn, o ran ei weithredoedd nerthol, ei anghydmarol ddoethineb, a'i ymarweddiad moesol, oedd yr un ffurf â Duw, er hyny, mor ostyngedig ydoedd fel na ddaeth i'w feddwl mai gwrthrych i'w dreisio yw bod yn ogyfuwch â Duw.*" Ystyriasai yr Iesu mai trais fuasai ynddo wneuthur ei hun yn ogyfuwch â Duw. Nid felly yr ymddygodd efe, eithr dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd neu ffurf gwas.

Dyma ystyriwn ni yw meddwl yr Apostol, a thyma hefyd yw meddwl yr rhan amlaf o esbonwyr, a gobeithio y rhydd foddlonrwydd i chwi ac eraill o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD.

Cyn diweddu, nid anfuddiol, efallai, fyddai ychwanegu ychydig o sylwadau eglurhaol.

Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw.] Nid yw y frawddeg "ffurf Duw" yn meddwl ffurf *bersonol* Duw, neu fod Iesu Grist yn meddu ar briodoleddau a berthynant i *natur* Duw, oblegid ni welodd neb o Dduw erioed, ac am hynny nis gall neb wybod beth yw ei ffurf. Dywed yr Apostol i'r Iesu gymmeryd arno *agwedd* gwas. Yr un gair *(morphe)* sydd am *ffurf* ac *agwedd*. Paham y darfu i'r cyfieithwyr alw y gair Groeg *morphe* yn *ffurf* yn Ad. 6, ac *agwedd* yn yr adnod nesaf, nis gwyddom. Os ydyw bod yn ffurf Duw yn meddwl fod Iesu Grist yn Dduw, oddiwrth yr un rheswm mae yn canlyn fod bod yn ffurf gwas (caethwas) yn cynnwys ei fod yn gaethwas. Ond ni fu yr Iesu erioed yn gaethwas. Dywedasom yn yr esboniad uchod fod yr Iesu yn ffurf Duw o ran ei weithredoedd nerthol, ei anghydmarol ddoethineb, a'i ymddygiad moesol.

Ni thybiodd yn drais.] Nid ydym yn ystyried fod trais yma yn gyfieithad cywir o air Groeg yr Apostol, sef *harpagmos*. Ystyr cyffredin y gair Cymraeg *trais* yw y *weithred* o dreisio. Mae y gair Groeg *harpagmos* yn cael ei arferyd weithiau yn yr un ystyr, ac yn gyfystyr â *harpagê*, ond meddylia hefyd yr un peth â *harpagma*, sef *y gwrthrych a dreisir*, yn Saesneg, *booty, prey, anything seized.* Ymddengys i ni mai hyn ydyw ei feddwl yma, a hyn yw barn y rhan amlaf o esbonwyr. Y meddwl yw hyn:—*Ni feddyliodd yr Iesu fod bod yn ogyfuwch a Duw yn wrthrych i'w dreisio*, neu fel y cyfieitha Dr. Pye Smith y frawddeg yn Saesneg:—*He (Jesus) did not esteem it an object to be caught at to be on a parity with God.* Sylwa y Doctor mai hyn hefyd yw'r ystyr y dealla y Teidau Groeg y frawddeg i lawr hyd y pedwar canrif, pan fyddont yn dyfynu'r adnod.

Fod yn ogyfuwch â Duw.] Geiriau yr Apostol ydynt *To einai isa Theô.* Y gair a gyfieithir *gogyfuwch* yw *isa.* Dywed Dr. Whitby y dylasai *isa* gael ei gyfieithu *fel* ac nid *gogyfuwch.* Mae'r gair yma yn meddwl *cyffelybrwydd* ac nid *cyfartalrwydd.* Gwel Col. i. 15; 2 Cor. viii., 9.

T. M.—Cynnwys dwfr ddwy elfen, *hydrogen* ac *oxygen.* Y cyfartaledd mewn pwysau yw 1 o'r blaenaf ac 8 o'r olaf; hyny yw, mewn

naw pwys o ddwfr mae un pwys o hydrogen ac wyth o oxygen. Y ffordd oreu a wyddom ni am dani i wahanu y ddwy elfen yw yr un ganlynol:—Gosodwch ddarnau bychain o *zinc* neu haiarn mewn costrel wydr gyda oddeutu pum rhan o ddwfr ac un o *sulphuric acid* neu *oil of vitriol.* Corcwch hi yn dyn. Yn y cork gwnewch dwll, a gosodwch ynddo bibell o faintioli cwilsen gwydd. Sicrhawch hwynt yn ofalus fel na ddiango'r gas. Elfen dreiddiol yw hydrogen ac ysgafnach na'r awyr. Am y bibell clymwch bledren ac na fydded awyr ynddi. Dylai fod y pethau hyn oll yn barod gennych cyn cymmysgu y cyffeiriau. Dechreua y gas esgyn cynted ag y dechreua y cyffeiriau ymgynhyrfu. Pan fyddo y bledren yn llawn, sicrhawch hi. Pe gosodech ddernyn o goes pib yng ngenau y bledren a'i gwasgu, cynnai y gas fel canwyll â goleu glas. Galwai Dr. Priestley y goleu hwn ei *Philosophical Candle.* Cynnyrcha'r llosgiad ddwfr trwy uno â'r oxygen yn yr awyr yr hwn a bera i'r hydrogen gynneu. Pe cymmysgid oxygen a hydrogen mewn costrel gref a gosod cynwyll i gyffwrdd a'i genau, una y ddwy elfen gyda'r fath chwimmwthdra nes swnio fel ergyd o ddryll. Mae yn ofynol iawn sylwi, er hyny, er mwyn eich gosod ar eich gocheliad, fod llawer wedi cael niwed wrth y gwaith hwn, oblegid os nad ydyw y gostrel yn ddigon cryf i wrthsefyll chwimmwthdra y cynhyrfiad, gall y darnau eich niweidio. Er mwyn gochelyd y perygl, doeth fyddai yn gyntaf rwymo y gostrel yn dyn â brethyn neu ganfas cryf.

J. o R-y.—Cyfeirio wna'r Awdwr yn Heb. v. 7. at yr amgylchiad chwerw yng ngardd Gethsemane, ar Fynydd yr Olewydd, ychydig oriau, efallai, fynydau, cyn i Judas ddyfod â thyrfa fawr gydag ef, wedi eu harfogi â chleddyfau a ffyn, i ddal yr Iesu, a'i ddwyn o flaen yr archoffeiriaid. Gwel Matt. xxv. 36-37; Marc xxiv. 32-42; a Luc xxii. 39-46. Nis gwyddom am air cymhwys yn Gymraeg i ddynodi y cyflwr truenus i ba un y mae enaid dyn yn agored iddo pan yn rhagweled dioddefaint erchyll yn cyflym ddynesu. Gloes, ing, *agony of mind.* Mor bwysig oedd y tristwch ddaeth arno fel yr addefodd wrth ei ddysgyblion, "Trist iawn yw fy enaid hyd angeu;" hyny yw, "Mor llym yw'r tristwch nes ydwyf bron a marw odditano." Dywed Luc fod yr ing neu'r loes mor bwysfawr nes oedd ei "chwys fel defnynau o waed yn disgyn ar y ddaear"—yn y fath gyflwr truenus oedd ei enaid! Ceisia rhai gyfrif am y loes trwy ddweyd fod y diafol wedi cael cenad i dywallt arno lid ei ddigofaint! Dychymyga eraill mai teimlo pwys pechodau'r byd ydoedd fel meichiau neu iawn tros bechod! Barn eraill yw fod y Duwdod y pryd hwn wedi gadael y natur ddynol yn amddifad tros ennyd, fel y byddai i gyfiawnder dwyfol gael ei foddloni! Nid oes dim diwedd ar ddychymygion, unwaith y rhoddom y ffrwyn i'r meddwl. Ymddengys i ni y gellir cyfrif am dristwch ein Harglwydd y pryd hwn heb adael yr amgyffred i redeg ar ol dychymygion disail. Digon mawr i gyfrif am dano yw y rhagwelhad o'r dioddefaint erchyll ag oedd yn cyflym ddynesu. Mae yn wir y gwyddai ym mhell cyn hyn fod angeu barbaraidd y groes o'i flaen, ond yn awr yr oedd yr amser wedi dyfod! Yr oedd wedi cael ei daro a dychryn annysgrifiadwy, a thaerweddïau am nerth i fyned trwy'r amgylchiad chwerw, gan mai ewyllys ei Dad ydoedd iddo ddi-

oddef. Er hyny, er i fod natur yn barod i ddo tan bwys y tristwch, yr oedd yn berffaith ostyngedig i ewyllys Duw. "Fy Nhad, os yw yn bosibl aed y cwpan hwn heibio oddiwrthyf; eto nid fel yr wyf fi yn ewyllysio, ond fel yr wyt ti." Ni pharhaodd y cyflwr trist on tros ennyd fechan. Gwrandawodd Duw ei daerweddi. O hyn allan hyd ei farwoleth ymddengys yn hollol dawel, ac yn wynebu dioddefaint y groes yn ddigryn. Dichon y dywed rhai mae gwendid mawr yn yr Iesu oedd, na fuasai yn wynebu y brofedigaeth yn wrol fel Stoic. Os gwendid, gwendid dynoliaeth ydoedd, a harddwch mawr yn ei ymddygiad. Pe wynebasai ei ddioddefaint yn hollol ddideimlad, buasai llawer yn barod i ddyweyd ei fod tan ddylanwad penboethni crefyddol. Ond nid felly, eithr dengys ei ymddygiad, er yn berffaith ddarostyngedig i ewyllys Duw, ei fod ar yr un pryd yn meddu ar deimladau y natur ddynol. Dyma siampl i ninnau, pryd bynag y gwel Duw fod yn dda i brofi ein hymddiried yn ei gariad. Dywedasom fod Awdwr yr Epistol hwn, yn yr adnod tan sylw yn cyfeirio at y brofedigaeth yn Gethsemane. Dyma feddylia wrth y "llefain cryf a dagrau," a'r "erfyniau ar yr hwn oedd yn abl i'w achub oddiwrth farwolaeth," sef Duw. Dywed hefyd iddo "gael ei wrando yn yr hyn a ofnodd," neu yn hytrach iddo dderbyn ateb i'w daer weddi *(apo tou eulabeias)* oherwydd ei *reverence*, sef ei ymostyngiad i ewyllys Duw, a'i ymddiried yn ei ddoethineb a'i gariad.

Caniataed "J" i ni sylwi wrth ddiweddu, na wyddai Awdwr yr Epistol hwn ddim am yr athrawiaeth boblogaidd o ddwy natur yng Nghrist, sef ei fod yn berffaith Dduw a pherffaith ddyn. Pe buasai yn berffaith Dduw, ni weddiasai am waredigaeth o'r dioddefaint oedd ar ei gyfer, oblegyd gallasai waredu ei hun. Onid yw yn syndod meddwl fod dynion, a dynion dysgedig hefyd, yn gallu credu a phregethu athrawiaeth mor groes i synwyr naturiol, mor groes i'r Ysgrythyrau, ac mor ddiraddiol i Grist? Ai nid oes ofn arnynt, y geilw Duw hwynt ryw ddydd i gyfrif am lygru crefydd ei Anwyl Fab, Iesu Grist ein Harglwydd? Nid digon iddynt wneuthur hyn, ond hefyd camddarluniant, oherwydd fod y werin anwybodus o'u hochr, syniadau a bwriadau y sawl a feiddiant ddyweyd gair dros Grist.

Dywedodd merch ieuanc wrth ei chariad na phriodai hi ddim nes y byddai *sewar* ei hoedran wedi ei leihau â'r nawfed ran o'r sewar, yn gwneuthur i fynu y swm o 891; ac hefyd dywedodd wrtho fod yn rhaid iddo wneuthur y swm ei hunan, onite na phriodai hi mo hono ef, ac i fod yn rhaid iddo wneuthur y swm trwy rifyddiaeth yn unig. Yn gymmaint ag i fod y bachgen wedi *boddran* ei ben oddeutu y swm, yn ddieffaith, nes yw wedi myned bron yn ddall, ac wedi gwirioni, a fydd rhyw un o rifyddwyr yr YMOFYNYDD cystal a'i *dynu o'i drwbwl*?

SYR,—Mawr y carwn gael traethawd etto gan S. N. a'r WRES (*heat*), ac nid y fi yn unig ond llawer eraill o'ch darllenwyr.

Ydwyf, &c.

Castellnedd. DARLLENWR CYSSON.

MR. GOL,—Teimlwn yn ddiolchgar iawn i'r Parch R. J. Jones, A.C.,

o Aberdâr, pe y gwnelai yn yr YMOFYNYDD ychydig o nodiadau eglurhaol ar Luc. xxiii. 43. Pa fodd y gallasai Crist addaw Paradwys i ddrwgweithredwr neu i leidr, fel mae gan Matthew?

D——S. IAGO.

SYR,—A fyddwch chwi cystal a dywedyd wrthym y flwyddyn o oed Crist yr ysgrifenodd yr Apostol Paul bob un o'i lythyron at yr Eglwysi?

A. M.

MR. GOL,—Pa mor bell y mae cyssondeb ac unffurfiaeth deddfau natur yn myned i ddangos annhebygolrwydd gwyrthiau?

GWYLIM.

CARWR RHYDDID.—Yr ydych yn gofyn ein meddwl ar Eglwys y Llywodraeth fel rhwystr ar ffordd lledaniad yr Efengyl yn ei symledd cyntefig. Ein barn yw nad oes un rhwystr, ac nas gall fod un rhwystr, yn fwy yn y byd ar ffordd y gwirionedd nac Eglwys Sefydledig. Gorwedda ar fynwes Cristnogrwydd fel rhyw hunllef *(nightmare)* drom. Braidd y gall anadlu odditani. Edrychwch fel mae Eglwys Llywodraeth yn gosod temtasiwnau o flaen dynion mewn arian, dylanwad, a boneddigeidrwydd. Mae hyd yn oed Undodiaid cyfrifol wedi cael eu hudo cyn hyn gan ei mawredd i fradychu eu hegwyddorion crefyddol a allesid unwaith feddwl eu bod yn anwyl ganddynt. Dywedir am Anghydffurfwyr, os deuant ym mlaen yn y byd fel ag i gadw cerbyd a gweision mewn lifrai, y troant eu cefnau ar eu hen dy addoliad, gan fyned i Eglwys y Llywodraeth i addoli ar y Saboth gyda'r mawrion. Mae llawer wedi gwneyd hyn, ond nid pawb. Yr Eglwys Sefydledig yw'r diafol sydd yn eu temptio. Dwg hyn i'n cof sylw a wnaeth Charles yr Ail. Pan oedd rhyw un yn ymddyddan ag ef y'nghylch Ymneillduaeth ac yn sylwi ei bod yn llawer rhagorach mewn duwioldeb na'r Eglwys Sefydledig, attebodd y brenin y gallai hyny fod yn eithaf gwir, ond nad oedd *Ymneillduaeth yn grefydd addas i wr bonheddig.* Pwy obaith gan hyny sydd i Undodiaeth wneyd proselytiaid ym mhlith y cyfoethogion? Mae Undodiaeth yn rhy wael yn eu golwg, oblegid mai Anghydffurfiaeth ydyw. Nid dim ond Eglwys y gwr bonheddig wna y tro iddynt hwy. Meddyliwch y fath effaith anghrefyddol gâ yr ysbryd bydol digristiaidd hwn ar y bobl gyffredin! Mae yn rhaid iddynt hwythau hefyd, lawer o honynt, fyned ar y Saboth i'w gweled lle byddo'r boneddigion. Gobeithia y masnachwr y câ trwy hyny fwy o brynwyr i'w shop, ac ambell i gerbyd i dynu i fynu wrth ei ddrws; a'r tylodion o honynt hwythau a ddisgwyliant am friwsion oddiar ei byrddau y Nadolig. Crea Eglwys Sefydledig anian fydol trwy bob gradd o'r trigolion. Yng ngwyneb dylanwadau o'r fath mae yn ammhossibl i'r gwirionedd gael chwareu teg. Ystyriwch hefyd fod miloedd o offeiriaid yn ein gwlad. Gwnaethant oll adduned ddifrifol i ddysgu, ac i ddal i fynu, gredo Athanasius, a'r deugain erthygl ond un, p'un ai gwir ai anwir ydynt. Os y disgwyliwch ar offeiriad ag sydd yn derbyn dau, tri, pedwar, pump cant o bunnau trwy ei swydd, neu Esgob neu Archesgob sydd yn derbyn ei filoedd yn y flwyddyn—os y disgwyliwch ar y rhai hyn i chwilio yn gydwybodol am y gwirionedd,

a'i ganlyn trwy glod ac anghlod, chwi ddisgwyliwch beth na wnant byth. Yn fyr, ein barn ni yw, fel y sylwasom yn barod, nad oes un rhwystr yn ein gwlad gymmaint ar ffordd y gwirionedd â'r Eglwys Waddolog. Pa cyhyd etto y *goddefa* y bobl sefydliad gwladol ag sydd yn rhewi crefydd, ac mor groes i ysbryd yr oes, nis mentrwn brophwydo. Os ydym yn deall yn iawn argoelion yr amserau, ni debygem fod amser ei dadsefydliad yn dynesu yn gyflym. Ond dichon nad yw mor agos ag y dymunem.

ENGLYNION

A adroddwyd yng Nghwrdd Llenyddol a gynaliwyd yn Pantydefaid y 23ain o fis Rhagfyr diweddaf.

Diau heddyw onid diddan—y gorchwyl
O gyrchu i'r unman;
Er cyd-bynciaw c'weiriaw cân,
I Luniwr uchel anian.

E ddyd yr adroddiadau—er elw
Wir hwyl i'n calonau;
Rwy'n credu gwnaf ffaelu coffau,
Fwy ethawl wledd o foethau.

Fyw ddilwgr wledd feddyliau—gwledd anwyl
Gwledd iawn i'n teimladau;
Gwledd synwyr, gwledd o seiniau;
Gwledd ddymunir hir barhau.

Gwiw lwyddiant, ffyniant, hoff union—ddelo
'N ddilys o'ch amcanion;
Fynu o hyd yn y fan hon,
Gariad yn benaf goron.

B. D. J.

Mewn gwledd o gyfeillion hen ac ieuainge, gofynwyd y cwestiwn—"Pa dymmor o fywyd sydd fwyaf hapus?" Ar ol iddo gael ei ddadleu yn lled gyffredinol yn mysg y gwahoddedigion, gofynwyd am attebiad i ŵr y tŷ, gan ei fod ef wedi gweled dros bedwar ugain mlynedd. Gofynodd yntau iddynt, o oeddynt wedi sylwi ar y llwyn coed oedd o flaen ei breswyltod, a dywedodd, "Pan y daw y gwanwyn, ac yn yr awelon tyner pan mae y blagur yn tori allan ar y coed, ac wedi eu gorchuddio â blodau, byddaf yn meddwl—Mor brydferth ydyw y gwanwyn! A phan y daw yr hâf, ac y gorchuddir y coed â dail llawnion, ac y bydd yr adar yn pyngcio yn nghanol y canghenau, byddaf yn meddwl, mor brydferth ydyw yr hâf! Pan y llwytha y cynhauaf hwynt â blodau euraidd, byddaf yn meddwl mor brydferth ydyw y cynhauaf! A phan y bydd yn auaf oer a chrinllyd, ac nad oes na dail na ffrwythau, yna byddaf yn edrych i fyny, a thrwy y canghenau diddail, fel nas gallwn erioed hyd yn awr, yr wyf yn gweled y ser yn pelydru drwyddynt.—Dr. Adams.

DAERYDDIAETH PALESTINA.

(Parhâd o Ben. II.)

DANGOSIR i'r ymddeithydd amrywiol ogofeydd yn y mynydd hwn, ac ymhlith y cyfryw, y rhai y buasai Elias ac Eliseus yn arferol gyrchu iddynt. I fynydd Carmel yr ymgynhullodd holl Israel, pan syrthiodd tân yr Arglwydd o'r nefoedd ac a ysodd boeth-offrwm Elias, a'r coed a'r cerig: "A'r holl bobl a welsant ac a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a ddywedasant, YR ARGLWYDD, efe sydd Dduw, YR ARGLWYDD, efe sydd Dduw." (1 Bren. xviii., 39). Ar yr achlysur hwn y daliwyd prophwydi Baal, ac a'u lladdwyd wrth odre'r mynydd ar lan afon Cison. Ar ben Carmel y bu Elias mewn gweddi am wlaw fel y buasai i'w brophwydoliaeth wrth Ahab gael ei chyflawni, sef, "ni bydd y blynyddoedd hyn na gwlith na gwlaw ond yn ol fy ngair i," (1 Bren. xvii., 1); ac yma y cafoedd ei chyflawni, "ac yn yr ennyd hono y nefoedd a dduodd gan gymylau, a bu gwynt a gwlaw mawr." (1 Bren. xviii., 45).

5. *Tabor*, enw diweddar *Jebel Tur*, a saif o du'r gogledd-ddwyrain i wastadedd Esdraelon. Tybir ei fod oddeutu mil o drodfeddi yn uwch na'r gwastadedd. Mae o ddull conaidd, a gwastadedd bychan hirgul ar ei ben. Gwaith anhawdd i ddyn i'w ddringo, ac nis gall wneuthur hyn, ond ar hyd llwybr doleuog. Ceir llawer o lwyni, coed deri, a blodau gwylltion ar y mynydd hwn. Oddiar ei ben y mae golygfeydd ardderchog a hyfryd ar yr Iorddonen, môr Galilea, y môr mawr, a'r gwastadedd oddiamgylch. Yma y cynhullodd Debora a Barak ryfelwyr Israel cyn iddynt ymosod a gorchfygu Sisera a'i lu, "Yr hwn a gynhullodd ei holl gerbydau, sef naw can cerbyd haiarn, a'r holl bobl ac oedd gydag ef o Haroseth y cenhedloedd hyd afon Cison." (Barn. iv., 13.) Mae traddodiad yn dyweyd mai ar hwn y bu gwedd newidiad Crist, pan "ei wynebpryd ef a newidiwyd, a'i wisg oedd yn wen ddisglaer." (Luc ix., 29.)

6. *Mynyddoedd Gilboa, Djebel Gilboa* ydynt restr o fryniau isel diffrwyth yn rhedeg yn groes i wastadedd Jezreel ac yn ffurfio terfyn y de-ddwyrain o hono. Mae y rhestr hon yn rhedeg o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain, ac yn terfynu ar lan yr Iorddonen, gerllaw tref Bysan, Bethehan, neu Scythapolis. Mae golwg bur ddiffaith a llwm ar yr oll o'r mynyddau hyn; ac y maent oddeutu 800 troedfedd yn uwch na gwyneb y gwastadedd. Yma yr ymladdodd yr Israeliaid frwydr a'r Philistiaid, yn yr hon y cawsant eu gorchfygu, a thri mab Saul eu lladd, a lle y gosododd brenhin cyntaf Israel derfyn ar ei einioes ei hun, fel na byddai iddo syrthio i ddwylaw y gelyn. Mewn coffadwriaeth am yr amgylchiad y cyfansoddodd Dafydd yr alarnad deimladwy hono, yn yr hon y mae yn llefaru—"O ardderchawgrwydd Israel, efe a archollwyd ar dy uchelfaoedd di, pa fodd y cwympodd y cedyrn, ac y difethwyd arfau rhyfel!" (2 Sam. i., 19-27).

7. *Ebal a Gerizim* ydynt ddau fynydd yn Samaria. Maent yn cael eu rhanu oddiwrth eu gilydd gan ddyffryn prydferth, cul, yn yr hwn y saif dinas Shechem, a elwir yn bresenol Nablono. Mae Ebal yn sefyll o'r

gogledd-orllewin, a Gerizim i'r de-ddwyrain o'r dyffryn. Mae'r ddau fynydd yn codi yn debyg i furiau, ac i 800 troedfedd o uwchder. Ar ben y mynyddau hyn darllenwyd y gyfraith, ynghyd â'i bendithion â'i mhelldithion, i blant Israel, gwedi iddynt feddianu y wlad addawedig, "Un hanner o'r bobl oedd ar gyfer mynydd Gerizim, a'u hanner ar gyfer mynydd Ebal." (Jos. viii. 33.) Adeiladodd y Samariaid deml ar fynydd Gerizim, gan geisio rhagori ar un Jerusalem: felly ystyrient hwy y mynydd hwn y mwyaf cyssegredig. Ac hyd yn oed yn y dyddiau presenol, y mae gweddill yr hen bobl yn ei barchu yn fawr; ac ymwelant a'i gopa, y lle mwyaf sanctaidd ganddynt, bedair gwaith yn y flwyddyn er talu eu haddoliad. Oddiar ben mynydd Gerizim y llefarodd Jotham wrth fobl Shechem, mewn dammeg, pan y gwnaethant Abimelec yn frenhin. (Barn. ix. 7-22.)

8. Yn ol yr Ysgrythyrau, "gwlad y bryniau a'r dyffrynoedd" yw Judea. Y rhan fwyaf fynyddig o honi sydd oddiamgylch Jerusalem, a rhyngthi a'r Môr Marw. Bu mynyddoedd a bryniau Judea gynt yn cael eu cwrteithio yn dda; ceir llawer o olion hyn yn bresenol, megis gwelydd i ddal i fynu y tir rhag llithro, a phydewau, er dyfrhau'r caeau a'r gerddi. Ond yn bresenol y mae golwg bur lwm a diffaith arnynt. Ar fryniau Zion, Acra, a Moria, yr adeiladwyd Jerusalem. Pen deheuol y gwastadedd creigiog, ac sydd yn ymestyn tua'r gogledd o ddinas Jerusalem yw y bryniau uchod. Mynydd Zion, y mwyaf o honynt, a saif o du'r de iddi; ac a ffurfia yn agos ganolbwynt Judea. Mae rhan o hono dan driniaeth megis y dywedodd Micah iii. 12. "Zion a erddir fel maes." O du'r de i Zion ac yn cael ei ranu gan ddyffryn Hinnom, y mae'r bryn, ar yr hwn oedd palas Caiaphas, lle'r yngynghorodd yr Archoffeiriaid a'r henuriaid i osod yr Iesu i farwolaeth. Ar ael y bryn hwn hefyd y dangosir Aceldama neu faes y gwaed, yr hwn a "brynwyd a gwobr anwiredd," ac a fu yn "faes y pannwr."

9. *Mynydd yr Olewydd* a saif o du'r dwyrain i Jerusalem. Cafodd yr enw oddiwrth yr olewydd a dyfasai arno. Yr oedd yn fynydd ffrwythlawn: tyfasai arno amrywiol goed a llysiau ereill yn helaeth, megis, y pomgranad, y winwydden, y ffigysbren, a'r palmwydden. Cynnwysa restr o bedwar mynydd, o wahanol uwchder, a'r gopa uwchaf a gyfyd o ardd Gethsemane 2530 troedfedd o uwchder; ac oddiar hon y dywedir, y bu esgyniad ein Hiachawdwr. Mae golygfa ardderdd og oddiar ei ben ar y wlad oddiamgylch. I'r pen eithaf i'r de o'r rhestr hon, y mae cribyn iselach, ac sydd yn myned dan yr enw *Mynydd y Tramcwydd* a *Mynydd Llygredigaeth*, oherwydd mai yma yr adeiladodd Solomon uchelfanau i Astoreth, ffieidd-dra'r Sidoniaid, ac i Cemos, ffieidd-dra'r Moabiaid, ac i Moloch, ffieidd-dra meibion Ammon. (1 Bren. xi. 7.)

Mae Milton yn dyweyd, pan yn son am y llefydd oedd Moloch yn cael ei addoli:—

> "The wisest heart
> Of Solomon he led by fraud, to build
> His temple right against the temple of God
> On that approbrious hill."

Mae llawer o bethau cyssegredig yn dal cyssylltiad a mynydd yr Olewydd.

"Aeth Dafydd, pan yn dianc rhag ei fab Absalom, fynu i fynydd yr Olewydd, ac yr oedd yn myned i fynu ac yn wylo, a'i ben wedi ei orchuddio, ac yr oedd efe yn myned yn droednoeth." (2 Sam. xv. 30.) Yma yr oedd ein Hiachawdwr yn arferol o gyrchu, pan y buasai yn myned allan o'swn a thertysc y ddinas. "A'r dydd yr ydoedd ef yn athrawiaethu yn y deml; a'r nos yr oedd efe yn myned ac yn aros yn y mynydd, a elwid yn Olewydd." (Luc. xxi. 37.) Fel yr oedd ef yn eistedd ar y mynydd hwn, y dywedoddwrth ei ddisgyblion beth fyddai arwyddion ei ddyfodiad ef ar ddiwedd y byd. "Yma yr arweiniodd ei ddysgyblion ar ol ei adgyfodiad, pan oedd yr awr wedi dyfod pryd y buasai yn cael ei gymeryd oddiwrthynt: yma y rhoddodd y gorchymyn, 'Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur.' Yma y llefarodd ei eiriau diweddaf; ac y rhoddodd ei fendith olaf, pryd yr ymadawodd â'r ddaear." (*Hand-book round Jerusalem.*) Wrth droed mynydd yr Olewydd dangosir y man, lle'r oedd gardd Gethsemane. Y mae'n ddarn o dir ac sydd yn cael ei amgylchynu a gwal isel ac yn cael ei gwrteithio. Mae wyth olewydden hen i'w cael tufewn i'r mur, a dywedir, mai o dan eu cysgod y cafodd y gwr oedd gynefin a dolur, rhyw flaen-brawf o'r farwolaeth chwerw oedd ar ddioddef.

10. *Mynydd Quarantana*, neu Fynydd yr Ympryd. Mae hwn yn edrych yn le diffaith, creigiog, annhrefnus. Saif o du'r gogledd-ddwyrain i Jerusalem. Tybir mae'r parth hwn yw'r "anialwch," lle cafodd yr Iesu ei arwain "gan yr Ysbryd i'w demtio gan ddiafol." (Matt. iv., 1.) Ac ar y man uwchaf o hono, meddylir iddo gael ei demtio, lle "dangosodd Satan iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant hwy:" (Luc iv., 5.)

11. *Gilead.* Mae'r gadwyn hon yn dechreu yn agos i fynydd Hermon ac yn ymestyn tua'r dê, o du'r dwyrain i'r Iorddonen. Gelwir y rhan ogleddol o honi Bashan. Y rhan a elwir yn briodol *Gilead*, nawr, *Jebel Jelaad*, sydd restr o frynian, rhyw chwech milldir i'r Dê i afon Jabbok, ac yn ymestyn am saith milldir o hyd o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae y rhan orllewinol o Jelaad yn cael ei galw yn Jebel Osha, oddiwrth Joshua, i'r hwn y mae cofadail mewn *mosque* ar y mynydd. Mae'r enw Gilead yn tarddu oddiwrth yr amgylchiad a gymmerodd le rhwng Jacob a Laban. Yma y gwnaethant gyfammod, ac mewn coffadwriaeth o hono, codasant garnedd o gerig, yr hon a alwodd Jacob, Galead, sef Carnedd y dystiolaeth. (Gen. xxxi., 47, 48.)

Yr oedd bryniau Gilead yn enwog am borfa ffrwythlawn; arnynt y porai anifeiliaid llwyth Reuben. Y parth hwn oedd teyrnas Og, brenin Bashan. Mae ardderchawgrwydd a thegwch yn preswylio yn barhaus yn Gilead; mae'r bryniau yn cael eu gwisgo gan goedwigoedd, a'r gwastadedd yn hynod ffrwythlawn. Bu'r parth hwn yn enwog am ei dderi, balm, per-lysiau, a myrr; ac hefyd am ei dda mawrion a thewion.

12. *Albarim.* Mae hwn yn ymddangos yn enw cyffredinol i restr o greigiau cribog a diffrwyth, ac sydd yn ymestyn o Gilead tua'r de. Yr oedd rhan o hono yn cael ei alw'n Peor, uchelfanau Baal, Nebo, a Pisgah. Gorchmynwyd i Moses i fyned i ben Nebo; ac o ben Pisgah, y gopa uchaf, y dangosodd yr Arglwydd iddo holl wlad Canaan. (Dieut. xxiv.)

Meddylir mai Jebel Attarus, yr hwn sydd yn gorwedd wyth milldir i'r gogledd o afon Arnon, yw mynydd Nebo yr Ysgrythyrau. Ar uchelfanau

Baal, a phen Peor yr adeiladwyd allorau wrth orchymyn Balaam, yr hwn a ddvgodd brenin Moab o Aram, allan o fynyddoedd y dwyrain. Ac ar ben Pisgah traddododd Balaam y broffwydoliaeth hon—"Daw Seren o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel, ac a ddryllia gonglau Moab, ac a ddinystria holl feibion Seth." (Num. xxiv., 17.) J. E.

YR IAWN.

"Eithr ni a wyddom fod barn Duw yn ol gwirionedd."—Rhuf. ii. 2.

1. Y mae'r golygiad meichniol yn attebol am ddwy ffugddadl. Dywed fod cyfiawnder dwyfol, nid dynol, yn cyfrif y meichniydd fel pechadur, yn bechadur, ie, y mwyaf, medd Luther. Yn yr un anadl cyfaddefa na wnaeth bechod. Dywed ei fod yn bechadur cyfreithiol, mewn ystyr bendant ac nid moesol. Ond cyfaddefa fod y dwyfol gyfreithiol yn foesol pan nad yn seremoniol, ac mai neges Crist oedd dileu y seremoniol. Gwna i ras gyfrif y troseddwr a gredo unwaith yng Nghrist yn gyfiawn arosol, er iddo ar ol credu, droseddu yn aml. Troseddwr cyfiawn sydd groesdyb nas cysonir hi byth. Pan ddywed Paul fod Duw yn cyfiawnhau yr annuwiol, dywed y gydwybod fod hynny yn cymmeryd lle, nid yn yn ddirprwyol, ond yn uniongyrchol ac yn bersonol ar edifeirwch. Act. ii., 38.

Ystyr cyfiawnhau yw cymeradwyo wedi adgymodi. Nid oes un awgrym yn nammeg y mab afradlon am ddirprwyaeth, ond y mae yno gyhoeddiad o adgymodiad a chymeradwyad ar ol edifeirwch a dychweliad. Ond gadawaf sylwi yn awr o safle'r cymmod. Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd uchod ni a welwn fod dau beth ammhosibl yn myned i wneuthur i fynu y drefn hono o iachawdwriaeth ac y mae machniaeth yn ben arni, sef cyfrif y cyfiawn yn bechadurus a'r pechadur yn gyfiawn. Y mae y drefn yn cynnwys fod Duw, megys dyn dallbleidiol, yn llythyrenol yn esgusodi cyfrwysderau, ac yn ddall i anwireddau. Ond y mae ein greddf a'n syniad ysbrydol a'n hymwybyddiaeth foesol yn ein dysgu fod y cymeriad dwyfol yn wirionedd. Y mae meichniaeth yn dysgu fod Duw yn ystyried y diniwed yn euog, yr hyn sydd anwir ac anghyfiawn, a'i fod yn rhoddi yn llythyrenol-wirioneddol, ei ddigofaint yn gosp ar y meichniydd, yr hyn fuasai yn gam pe yn bossibl. Yn ganlynol fe ddysga meichniaeth fod Duw yn cyfrif haeddiant Crist i ddyn euog, hynny yw, anmhosibilrwydd ac anghyfiawnder arall. Mewn gair, fod Duw mor anghyfiawn yn ei drugaredd ag ydyw yn ei ddigofaint; yn ei drugaredd yn cyfrif yr anwir yn wir, ac yn ei ddigofaint yn ystyried y cyfiawn yn anghyfiawn.

2. Y mae meichniaeth yn cynwys rhith-ddadl arall, sef, yn awr, am faddeuant. Pa fodd y gellir d'weyd yn eirwirol, nid yn ffugwirol, fod Duw yn maddeu pan y mae efe wedi gorfod gofyn, a chael dirwy ddigonol, wrth roddi cosp ddyladwy pechod dyn ar Grist yn lle ar y dyn? Ynte yr oedd y gosb ar Grist yn ddigonol neu yn annigonol. Os yn

ddigonol, y mae Duw wedi cael ei hawl, ac yna nid yw maddeuant yn air priodol: ond os yw yn briodol nid yw maddeuant yn drugaredd, eithr yn gyfiawnder.

Y mae trugaredd yn maddeu yn rhad yn mhob ystyr, ond y mae dirprwyaeth yn d'weyd nas gallai Duw faddeu nes cael dirwy addas.

Y mae pob trosedd yn derbyn cyflawn daledigaeth, ond, yn y troseddwr ei hun fel cerydd i'w adferu ac nes yr adferer ef. Gan hyny, ystyr y gair maddeuant ydyw adgymodi. Y mae cofio y darnodiant hwn yn angenrheidiol ac yn ddigonol i ddeall adnodau fel hon acw, "Sef bod Duw yn Nghrist yn cymodi—heb gyfrif eu pechodau.

Attebai proffeswyr meichniaeth yr oll o'r gosodiadau blaenorol drwy dd'weyd fod y drefn ddwyfol, yn wir, yn ymddangos fel pe bai yn erbyn gwirionedd, ond mai ymddangosiad yn unig yw hynny, canys nid yw'r drefn, meddent, yn erbyn ond yn uwch na rheswm a chydwybod. Os felly, nid oes a wnelo cydwybod a hi, ac nid yw yn gyfrifol am eu hanghredu. Ond ni a wyddom fod a wnelo cydwybod a rheswm â hi, a'u bod hwy yn eu chondemnio ar ol eu barnu.

Attebent hefyd mai ystyr maddeu ydyw cymwyso y cynllun, a ddyfeisiodd Duw heb orfod, i fyned heibio i bechod. A chaniatau i hyny fod, etto, cynllun sylfaenedig ar ad-daliad iawnol yw ef yn ol eu disgrifiad hwy.

Liverpool. GWIRIONEDD.

CYNHALIWYD Cyfarfod Cwarterol y Pasc eleni ar y 15fed a'r 16fed o Ebrill yn y Cribin, ger Llanbedr. Daeth yno dyrfa luosog o wrandawyr —llawer mwy nag a allasasi y Capel gynnwys. Prydnawn dydd Mercher dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, o Alltyplacca. Pregethodd y Parch. R. Jones, o Benybont; testyn, Ioan, iv. 20—24. Ar ei ol, pregethodd y Parch. J. Evans, o Gellionen, oddiwth 1 Cor. ii. 2. Boreu drannoeth dechreuwyd y cwrdd gan D. L. Evans, un o Athrawon Coleg Caerfyrddin, a phregethodd y Parch. R. J. Jones, M.A., o Aberdâr. Pwnc y Gennadledd ydoedd—Beth sydd i'w ddeall wrth yr Etholedigaeth a sonia Paul am dani yn y nawfed bennod o'i lythyr at y Rhufeiniaid? Ar y pwnc llefarodd y Parch. E. Lloyd, o'r Cwmbach; D. L Evans; a'r Parch. T. Thomas, o Bantydefaid. Yn y prydnawn, pregethodd y Parch. I. T. Williams, o Gefncoedcymmer, oddiwrth Luc xxiii., 50—53. Ar ei ol, pregethodd D. L. Evans, oddiallan i'r ty cwrdd, oherwyd fod y gwrandawyr mor lluosog. Testyn, Matt. xi. 28—30. Yn yr hwyr, dechreuodd y Parch. J. Evans y cwrdd, a phregethodd y Parchedigion W. Thomas, M.A., o'r Llwyn, ac E. Lloyd; y cyntaf oddiwrth Ioan xiv. 27, a'r olaf oddiwrth 1 Pedr i. 18, 19. Cafwyd yno gyfarfod da rhagorol, a gobeithio ydym y bydd o fendith i bawb oeddynt yn bresennol. Teilwng hefyd yw sylwi i ddieithriaid dderbyn caredigrwydd mawr oodiwrth y gynnulleidfa a llawer eraill yn y gymmudogaeth. Mae'r Cyfarfod nesaf i'w gynnal yn y Cwmbach, ger Aberdâr, fel y cawn hysbysu yn brydlawn yn yr YMOFYNYDD. Adeiladwyd hên gapel cyntaf y Cribin yn y flwyddyn 1790, ar draul yr aelodau ac eraill yn y gymmudogaeth ag oeddynt yn ffafriol i'r achos. Ail-adeiladwyd ef yn 1851, fel ei flaenor, ar draul

cyffelyb. Bu yn gweinidogaethu yno o bryd i bryd y Parchedigion Evan Davies, o Gwmbedw; Arthur Williams, o Lambedr; T. Emlyn Thomas; D. Evans, B.A., yn awr o Gaeronen; Peter Joseph; Evan Lewis, o'r Cilgwyn; a W. Rees, o Lynolau. Y gweinidog presennol yw y Parch. Thomas Griffiths. Oddeutu tair neu bedair milldir oddiyno y mae Capel Mydroilin. Perthynai y capel hwn unwaith i'r Presbyteriaid, ond y mae wedi bod yn awr er ys blynyddau ym meddiant yr Independiaid. Perthynai tair ffarm i'r Capel hwn—Moelifor, Esceronw, a'r Cwarre. Maent yn werth yn bresennol £75 y flwyddyn. Rhoddwyd *lease* y ffermydd hyn i'r gynnulleidfa Bresbyteraidd gan eu perchenog, Mr. Owen Jones. Y gweddill o'r ystad a werthodd i Mr. D. Daniel, o'r Ffwrneithin, hên dadcu Mr. John Lewis, o'r Tyddyndu. Dywedir i'r Capel ddôd i feddiant yr Independiaid trwy iddynt "brynu" y *lease*. Ond dichon mai gwell p'un lleiaf ddywedir yn awr ar y pen hwn. Gan nad modd y bu, collodd y Presbyteriaid y ty-cwrdd a'r property. Er i'r *lease* gael eu "phrynu," gosododd yr etifedd nesaf wrth y gyfraith ei law ar y ffermydd, a mawr les wnelo'r Capel i'r Independiaid. Cyn i'r Independiaid *brynu'r lease*, y Parchedigion Davies, o Lanybri; Mr. Gronow; a Davis, o Gastellhwel, fuont yn gweinidogaethu yn y Capel.

Y Seren Agosaf.—Y mae Seryddwyr yn haeru mai Sirius, neu Seren y Ci, ydyw yr agosaf o'r holl rai sefydlog; ac y maent yn cyfrif fod ei phellder o'n daear ni yn 2,200,000,000,000 o filldiroedd. Y maent yn dyweyd y byddai i sŵn gyrhaedd ein daear o Sirius mewn 50,000 o flynyddoedd, ac y byddai i belen o "ganon" yn teithio gyda'i chyflymdra arferol o 480 milltir yn yr awr, gymmerwyd 523,211 o flynyddoedd ar ei thaith oddi yno i'n daear ni.

Marwolaethau.

Bu farw, ar y 29ain o fis Rhagfyr diweddaf, yn 74 oed, yn nhy ei mherch, Rhydygwin, Llanycrwys, ger Llanbedr, Jemima Williams, yr hon a adwaenid yn bennaf wrth yr enw "Jem Ffosyffin." Meddai ar alluoedd meddyliol mwy na'r cyffredin, ac hefyd ar ddawn prydyddawl lled ffraeth. Yr oedd yn wraig onest a chywir, ac nid oedd neb a ddeallai yr athrawiaeth Undodaidd yn well na hi ac yn fwy hyddysc yn yr Ysgrythyrau. Bu llawer dadl frwd rhyngddi a rhai o wahanol farn, ac fynychaf yr ydoedd hi yn fuddugoliaethus. Cafodd ei geni yn Ffosyffin, ym mhlwyf Cellan, Ceredigion. Yr oedd ei rhieni yn ddynion parchus a chyfoethog. Ei thad, Undodwr selog a deallus ydoedd, a dyn a berchid yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd yn un o'r Undodwyr cyntaf yng nghymmudogaeth Llanbedr, a glunai wrth ei egwyddorion trwy glod ac anghlod. Gwelasom lyfryn, rai blynyddau yn ol, yn yr hwn yr oedd hanes Cwrdd Cwarterol a gynhaliwyd yn ei dy, yn Ffosyffin. Yn y cyfarfod hwnnw yr oedd yn bresennol y Parch. Thomas Evans, o Glyncothi, ac wedi hynny gweinidog hên dy cwrdd Aberdâr; Dafydd Jenkin Rhys, o Loydjack; Iolo Morganwg; ac amryw eraill. Cafodd Jemima, gan hynny, gyfleusderau, er yn blentyn, i ddeall egwyddorion pwysfawr y grefydd Gristionogol fel eu dealler a'u heglurir gan yr Undodiaid. Yr oedd ganddi frawd

hefyd yn weinidog parchus gyda'r enwad yn Castellnedd. Dynes o galon dwym a thyner oedd Jemima. Yr oedd yn dirion hyd yn oed i greaduriaid mudion. Unwaith pan oedd hi a'i hasyn bach ar ei thaith o Dalsarn i Llanbedr, cymmerodd Ned ei gennad i orwedd ar ei hyd yn groes i'r heol yng nghyfer palas Llanllur. Er fod ei feistres yn ei daer-gymmell i godi, cymmerai Ned ei amser ei hun. O'r diwedd dyma'r boneddwr yn dyfod tuag atti yn ei gerbyd, ac yn gorfod tynu i fynu am na allai fyned heibio oherwydd fod corpws Ned yn groes i'r heol. Gorchymynai iddi ei guro a pheri iddo godi. "O Syr," ebe hi," nis gallaf byth fod mor greulon a'i guro, ond os bydd eich gwas cystal a gwneuthur iddo godi, bydd yn dda gennyf, Syr." Ond erbyn hyn dyma Ned ei hunan yn barnu mai gwell oedd codi a myned a nwyfau ei feistres dirion tuag adref. Cyfansoddodd lawer ysgrifen tedd ddigrif, a llawer pennill ffraeth. Mae peth o'i chyfansoddiadau prydyddawl i'w gweled yn y "Seren Gomer." Dilys nad oedd yn fedrus gyda'r mesurau, er hynny yr oedd yn hollol naturiol iddi hi ganu. Cymmaint a hyn yn fyr am y ddynes onest, wirion, a chywir hon, ag sydd yn awr wedi myned i dir ei hir gartref. Cyfarfyddai ynddi lawer o hynodion, nad ydynt i'w cael ond yn anaml yng ngwragedd ein gwlad. C. A.

Dydd Mercher, y 18fed o Fawrth diweddaf, yn 3 blwydd oed, bu farw John, unig fab Thomas a Martha Evans, Alltyrodin Arms, Llandyssil, Ceredigion. Claddwyd ef dydd Gwener canlynol yn Pantydefaid, a phregethodd y Parch. T. T., gweinidog y lle, ar yr achlysur.

Mawrth 26ain, ar ol byr gystudd, yn 11 oed, David Jones, mab Mr. Griffith Jones, saer maen, Aberdâr, gynt o Felinfach, Ystrad, Ceredigion. Dydd Sul canlynol ymgynullodd tyrfa luosog iawn yn nghyd i hebrwng ei weddillion i dy ei hir gartref, yn mynwent Eglwys St. Fagans, Trecynon. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty cyn cychwyn, gan y Parch. R. J. Jones, A.C. Yr oedd y gwr ieuanc yn aelod selog iawn yn Ysgol Sul yr Hên-dy-Cwrdd, ac yn un o aelodau y côr. Perchid ef yn fawr gan ei gyd-ysgolheigion, ac eraill a'i hadwaenai. Na fydded i'w rieni a'i berthynsau i alaru yn ormodol ar ei ol; y mae gobaith etto am gyfarfyddiad mewn gwlad well.

Ebrill 4ydd, yn Mount Pleasant, Aberdâr, John T. Hopkin, yn 59 oed, ar ol naw mlynedd o gleſyd. Yr oedd yn ddarllenwr mawr ac yn berchen ar radd helaeth o wybodaeth. Celai barch cyffredinol yn y cylch y troai guddo, a chanlynwyd ef y dydd Mawrth canlynol i'w orphwysfa olaf yn y Gladdfa Gyffredinol gan dyrfa luosog o berthynasau a chydnabod. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan weinidog yr Hên-dy-Cwrdd.

Mrs. Evans, priod Mr. T. Evans, Alltyrodin Arms, a fu farw y 10fed o'r mis diweddaf (Ebrill), yn 37 oed. Yr oedd iechyd yr ymadawedig wedi dechreu gwaelu er ys mwy na blwyddyn, a bu yn lled gystuddiol am rai misoedd cyn ei marwolaeth. Tair wythnos y bu fyw wedi claddedigaeth ei mhab bychan. Yr oedd Mrs. Evans yn adnabyddus yn agos ac ym mhell, ac yn barchus gan bawb a'i hadwaenai. Nid oedd un datarn-wraig yn deall nac yn gwneuthur eu gwaith yn well na hi, na neb o ymddygiad mwy cyfrifol a charedig. Yr oedd yn olynydd teilwng i'w hewythr a'i mhodryb, Samuel a Mary Jones, ac i'w mhamgu, Martha Jones, yr hon a adnabyddid yn gyffredin wrth yr enw *Matti New Inn.* Gadawodd ar ei hol briod a merch fechan ychydig dros flwydd oed. Dydd Llun canlynol daeth i'w hangladd dyrfa luosog o berthynasau, cyfeillion, a chydnabod, a chladdwyd hi yn Pantydefaid. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, y Parch. W. Thomas, A.C., Llwynrhydowen, a T. T., gweinidog y lle.

Gwelliant Gwallau.—Rhifyn Ebrill, tud. 92, ll. 8 o'r gwaelod, darllener 'Gwrthneidiolrwydd *yr awyr* yw, &c." Tud. 93, ll. 11, "neu 28,000 o droededdi, &c." Ll. 18, yn lle "troedfedd" darllener "milldir."

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," CAERFYRDDIN.